EMIE yn y SCYA

# Canllaw ymarferol i reoli ad-drefnu ysgolion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru

**Adroddiad EMIE 97**

*Shirley Goodwin*






emie
scya
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Cymry Ifanc
Young Wales
WLGA • CLILC

EMIE yn y SCYA

# Canllaw ymarferol i reoli ad-drefnu ysgolion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru

**Adroddiad EMIE 97**

*Shirley Goodwin*

emie scya Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government Cymry Ifanc Young Wales WLGA • CLlLC

**Sut i gyfeirio at y cyhoeddiad hwn:**
Goodwin, S. (2010). *Canllaw Ymarferol i Reoli Ad-drefnu Ysgolion mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru* (adroddiad EMIE 97). Slough: EMIE yn y SCYA.

*Barn yr awdur sydd wedi'i mynegi yn yr adroddiad hwn – fyddai EMIE, Sefydliad Ymchwil Addysgol Prydain, Llywodraeth y Cynulliad nac WLGA ddim yn cytuno â'r farn honno, o reidrwydd..*

Mae modd codi copïau o'r adroddiad hwn ar: www.wlga.gov.uk. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn www.nfer.ac.uk/emie i ddefnyddwyr cofrestredig y wefan hon. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan awdurdodau lleol at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell.

© EMIE yn y SCYA 2010

Cyhoeddwyd ym Mis Awst 2010 gan EMIE yn y SCYA
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
The Mere, Upton Park
Slough, Berkshire, SL1 2DQ
ebost: emie@nfer.ac.uk
ffôn: 01753 523156

Rhif Elusen Gofrestredig. 313392

**ISBN 978 1 906792 62 6 (argraffwyd)**
**ISBN 978 1 906792 63 3 (ar lein)**

Ariennir EMIE i Loegr gan raglen Ymchwil Gwasanaeth Addysg a Phlant Llywodraeth Leol a weinyddir gan y Grŵp Llywodraeth Leol, a chaiff ei ariannu ar wahân ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, a Chymru.

Local Government Group

# Cynnwys

Ynglŷyn â'r canllaw hwn iv

1 Ymagweddau at reoli ad-drefnu ysgolion 1

2 Trefniadau llywodraethu a rheoli 3

3 Casglu a dadansoddi data/gwybodaeth 6

4 Datblygu'r opsiynau 8

5 Ymgynghori 13

6 Gwneud penderfyniadau 20

7 Gweithredu 21

8 Cefnogaeth i ysgolion a rheoli newid 22

Cyfeiriadau 25

Darllen ychwanegol 26

Atodiad 1 30

Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer ad-drefnu ysgolion

Atodiad 2 34

Cylch gwaith i Bwrdd Prosiect

Atodiad 3 35

Enghreifftiau o risgiau a lliniaru

Atodiad 4 38

Siart llif dangosol ar gyfer cynigion statudol

Atodiad 5 40

Cynllunio lleoedd disgyblion

Atodiad 6 47

Enghraifft amlinellol o ddogfen ymgynghori – i'w addasu i weddu i gynigion unigol

Atodiad 7 49

Hysbysiadau statudol

## Ynglŷn â'r canllaw hwn

Tîm Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) – gomisiynodd y ddogfen hon i helpu awdurdodau lleol Cymru i lunio eu rhaglenni strategol.

Nid canllaw cyfreithiol yw hwn, nac ychwaith ydyw'n ceisio darparu arweiniad ar ddehongli statud a chydymffurfio â'r gyfraith mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion. Yn dod i rym o 1 Ionawr 2010, y cyfarwyddyd statudol allweddol i awdurdodau ar ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw:

*Cyfarwyddyd Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif*. 021/2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Mae ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/?lang=en

Mae'r cylchlythyr hwn yn disodli'r cyfarwyddyd o fewn *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif*. 23/02 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

Gweler Atodiad 1 am gyfeiriadau eraill i ddeddfwriaeth allweddol ac arweiniad polisi mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion.





# 1 Ymagweddau at reoli ad-drefnu ysgolion

Datblygwyd y Datganiad o Bwrpas Cenedlaethol i Ysgolion, a gynhwyswyd yn y Cyfarwyddyd uchod (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009), gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid ac mae'n darparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu cynigion ad-drefnu ysgolion, yn enwedig wrth ystyried mai'r sbardun allweddol ar gyfer unrhyw gynlluniau o'r fath fydd gwella effeithiolrwydd ysgolion:

- cynyddu safonau dysgu a chyrhaeddiad ym mhob ysgol
- gwella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc ym mhob cyfnod
- sicrhau mai buddiannau dysgwyr yw'r brif ystyriaeth
- helpu i leihau'r anghydraddoldebau mewn cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig (gweler *Dyfodol Teg i'n Plant: strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fynd i'r Afael â Thlodi Plant*) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).

(Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Adeiladu Cymunedau Dysgu Effeithiol Gyda'n Gilydd* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworken.pdf).

Cwmpesir themâu perthnasol eraill wrth ystyried cynigion trefniadaeth ysgolion o fewn:

- deddfwriaeth gydraddoldeb
- *Y Wlad sy'n Dysgu* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001)
- *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, d.d.) a *Chymru'n Un* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, d.d., 2007)
- Y rhaglen Llwybrau Dysgu (drwy Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) (Lloegr a Chymru. Statudau, 2009).

At hynny, bydd angen cynlluniau strategol ar benderfyniadau yn y dyfodol ar ddyrannu arian i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi cyfalaf, sydd wedi'u hysbysu gan gynlluniau rheoli asedau'r awdurdod a'i asesiad o'r galw am leoedd mewn ysgolion. Mae hyn yn unol â'r ymrwymiad a rennir gan awdurdodau a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ysgolion 21ain ganrif.

Cynhyrchwyd y canllaw ymarferol hwn i'r awdurdodau hynny sy'n datblygu cynlluniau i ad-drefnu ysgolion, er mwyn helpu i wneud rheoli'r broses mor esmwyth ac effeithlon â phosib. Nod y prosesau a'r camau a ddisgrifiwyd yw bod yn berthnasol ac ar ffurf y gellir ei haddasu i ba ymagwedd bynnag y mae'r awdurdod yn ei chymryd, p'un ai yw hyn yn ymagwedd awdurdod cyfan neu'n ymagwedd gyson seiliedig ar ardaloedd lleol.

Er enghraifft, mae nifer o awdurdodau wedi mynd i'r afael ag ad-drefnu ysgolion dros gyfnod o flynyddoedd er mwyn osgoi'r galwadau enfawr ar allu a'r amharu anochel y gall ad-drefnu awdurdod cyfan mawr mewn un cam ei achosi. Fodd bynnag, mae eraill wedi cymryd ymagwedd awdurdod cyfan oherwydd y byddai'i osgoi cyfres hir a maith o adolygiadau (gall fod yn anodd cynnal momentwm a moral o fewn ysgolion a chymunedau mewn sefyllfaoedd





o'r fath). Roedd hyn hefyd yn galluogi'r awdurdod i ymdrin yn gydlynus ag effeithiau dilynol y newidiadau ar ysgolion eraill.

Pa ymagwedd bynnag y mae awdurdod yn ei chymryd, bydd angen iddo bennu a yw'r strwythurau presennol o fewn y Cyngor yn ddigonol i lywio'r ad-drefnu ysgolion, neu a fydd angen iddo sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli ychwanegol, fel Bwrdd Prosiect a Thîm Prosiect. Mae'r adran nesaf, felly, yn nodi rhai awgrymiadau ymarferol am lywio a rheoli ad-drefnu ysgolion. Yna mae gweddill adrannau'r canllaw yn darparu manylion mwy penodol am y prosesau ynghlwm wrth gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth, datblygu'r opsiynau, ymgymryd ag ymgynghori, gwneud a gweithredu penderfyniadau, a chefnogi ysgolion drwy'r newidiadau.





## 2 Trefniadau llywodraethu a rheoli

Mewn llawer o achosion, gellir defnyddio strwythurau presennol, staffio a fframweithiau awdurdodau lleol i reoli ad-drefnu ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael Swyddog Blaen dynodedig sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol dydd i ddydd yr ad-drefnu, ac, os yn sefydlu Bwrdd Prosiect, i ystyried y pwyntiau allweddol canlynol:

- aelodaeth a chadeiryddiaeth y Bwrdd Prosiect, yn cynnwys cydbwysedd swyddogion ac aelodau etholedig (gallai'r aelodaeth swyddogion gynnwys y Swyddog Blaen ar gyfer ad-drefnu ysgolion, uwch swyddogion ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion, cyllid, cyfreithiol, AD, cyfathrebu a chynllunio corfforaethol)
- cylch gwaith/cylch gorchwyl y Bwrdd, yn cynnwys ei bwerau gwneud penderfyniadau a ddirprwywyd a mecanweithiau adrodd, a phwy fydd yn gwneud y penderfyniadau ar gamau statudol, fel dechrau'r ymgynghoriad cyn-hysbysiad ffurfiol a'r penderfyniadau i gyhoeddi cynigion (mae Atodiad 2 yn nodi arweiniad ar gyfer cylch gwaith o'r fath)
- trefniadau clir ar gyfer gwneud argymhellion i'r Cabinet a chadarnhau penderfyniadau, yn cynnwys cymeradwyo dogfennaeth gytundebol
- a yw'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr penaethiaid, llywodraethwyr, yr esgobaeth ac undebau llafur, neu os na, sut bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn.

Pa drefniadau llywodraethu bynnag a roddir yn eu lle, bydd yn bwysig pennu sut i sicrhau bod yr aelodau etholedig yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, a sut i wneud y defnydd gorau o wybodaeth aelodau wardiau am eu cymunedau, yn cynnwys cael eu cymorth wrth gyflwyno negeseuon allweddol am yr ad-drefnu ysgolion.

At hynny, ac yn enwedig pan fydd ad-drefnu ysgolion ar raddfa fawr yn digwydd mae rhai awdurdodau wedi cyflogi staff ychwanegol, penodi ymgynghorwyr/cynghorwyr allanol a/neu ôl-lenwi staff presennol (ar sail ran neu lawn amser), er enghraifft, i helpu gyda thasgau fel:

- casglu data a gwybodaeth ynghyd, a sicrhau ei fod yn gywir, yn ddibynadwy ac yn argyhoeddiadol
- datblygu'r meini prawf/egwyddorion/amcanion sylfaenol ar gyfer cynigion yr awdurdod ar gyfer ymgynghori
- nodi a datrys materion, fel y rheiny sy'n gysylltiedig ag arian cyfalaf, tir a safleoedd
- datblygu ac ymgymryd â'r ymgynghoriad, yn cynnwys cyhoeddi hysbysiadau, cyflwyno gwybodaeth i Weinidogion Cymru ac ymdrin â gwrthwynebiadau pan fydd y rhain yn codi
- gweithredu penderfyniadau.

Fodd bynnag, mae angen ar ran fwyaf yr achosion ad-drefnu ysgolion ryw lefel o gefnogaeth traws-gyfarwyddiaeth, ac mae rhai awdurdodau yn sefydlu Tîm Prosiect i gynnwys arweinwyr ffrydiau gwaith ar gyfer gwasanaethau addysg/plant, rhaglen gyfalaf, dylunio, cyllid, materion cyfreithiol/cynllunio a chyfathrebu. Lle mae





Tîm Prosiect yn cael ei sefydlu dylai'r canlynol fod yn gymwys:

- dylai ei lefelau o awdurdod a ddirprwywyd alluogi gweithredu effeithiol ac amserol
- dylai'r rolau allweddol ar gyfer arweinwyr ffrydiau gwaith gael eu nodi'n glir (rhoddir enghreifftiau yn Nhabl 2.1)
- dylid adolygu aelodaeth y Tîm Prosiect ar adegau priodol i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd ag anghenion yr awdurdod.

Gallai awdurdodau ei gael ei ddefnyddiol hefyd i ddatblygu Cynllun Prosiect (gan ddefnyddio MS Project o bosib i greu a rheoli'r cynllun). Gallai'r cynllun hwn nodi cerrig milltir allweddol gydag amserlenni (er enghraifft, yn defnyddio siart GANTT) a chynnwys cynlluniau ffrydiau gwaith, wedi'u cysylltu â'r cynllun prosiect cyffredinol.

### Tabl 2.1 Rolau a chyfrifoldebau allweddol

| Arweinwyr ffrydiau gwaith | Rolau posib |
|---|---|
| Gwasanaethau Addysg | Strategaethau a pholisïau addysg<br>Cynllunio lleoedd disgyblion<br>Ymgynghori a chysylltiadau â'r cyfryngau<br>Cefnogaeth i ysgolion a rheoli newid<br>Cysylltiadau ag awdurdodau esgobaethol ac Addysg Bellach (AB)<br>Darpariaeth ar gyfer chwaraeon ac Addysg Gorfforol, Celfyddydau a Llyfrgelloedd, a chysylltiadau ag asiantaethau iechyd/asiantaethau eraill, ac ati.<br>Briffiau dylunio addysg |
| Technegol (Ystadau) Cynllunio/Rhaglen Gyfalaf | Cynllunio a thirfesur<br>Cynllunio rheoli asedau (yn rhai ALlau gallai hyn fod yn rhan o Wasanaethau Addysg)<br>Rheoli a chaffael prosiectau cyfalaf |
| Cynllunio Ariannol | Modelu cost, rhagamcanion refeniw a fforddiadwyedd<br>Cyllid cydlynus/cysylltiadau gyda ffrydiau cyllido eraill |
| Cyfreithiol | Cyngor ar brosesau statudol ar gyfer cynigion ysgolion<br>Materion eiddo yn cynnwys sefydlu hawl i dir<br>Materion caffael cyffredinol |
| Adnoddau Dynol | Recriwtio a dethol.<br>Cefnogaeth i staff yr effeithir arnynt gan y cynigion, er enghraifft, datblygu protocol staff ac ymdrin â materion yn ymwneud â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) |
| Dylunio | Sicrhau bod y dyluniad yn cefnogi trawsnewid addysg<br>Cynaliadwyedd |
| Datblygiadau Corfforaethol | Cysylltiadau â datblygiadau corfforaethol, tai a chynlluniau adfywio, ac ati |
| Chwaraeon a hamdden | Cyrff/sefydliadau chwaraeon |





Mae angen i'r Swyddog Blaen (neu Gyfarwyddwr y Prosiect, os penderfyna'r awdurdod ei fod yn dymuno penodi un) fod yn gyfrifol am reoli a monitro cynnydd y ffrydiau gwaith amrywiol, fel y nodwyd uchod, yn erbyn cerrig milltir allweddol a nodwyd, ac am ddarparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd (i'r Bwrdd Prosiect pan fydd un yn bodoli).

Yn ogystal, mae angen nodi risgiau posib ar gyfer pob ffrwd waith, ac mae angen nodi'r camau i'w cymryd i liniaru'r rhain, fel:

- argaeledd arian ac adnoddau i reoli'r prosiect
- materion cyfreithiol a chynllunio (er enghraifft, perchnogaeth y safle)
- effaith negyddol bosib ar effeithiolrwydd ysgolion yn ystod y trosglwyddo/gwaith adeiladu
- effaith yr ansicrwydd/newidiadau arfaethedig ar boblogrwydd ysgolion a moral/recriwtio a chadw staff
- mentrau eraill a allai effeithio ar y cynlluniau, ond nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn eto
- gwrthwynebiad (a'i ffynhonnell a rhesymeg) i rai o'r cynigion
- materion a chyfyngiadau gwleidyddol
- materion traws-ffiniol.

Gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion ar risgiau a lliniaru allweddol posib.





## 3 Casglu a dadansoddi data/gwybodaeth

Mae angen i gynlluniau trefniadaeth ysgolion nodi sut y bydd y rhain yn sicrhau:

- cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r nifer a ragamcanir o ddisgyblion yn y gymdogaeth, gan ystyried dewis rhieni ac anghenion disgyblion (yn cynnwys dewis dros addysg cyfrwng Cymraeg)
- darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, yn seiliedig ar asesu angen.

Bydd hyn yn gofyn am ddata ar:

- niferoedd presennol a niferoedd a ragamcanir ar y gofrestr a meintiau/ystod oed disgyblion
- dewisiadau rhieni ar gyfer derbyniadau
- safonau addysgol ar draws ysgolion
- unrhyw angen i leihau lleoedd dros ben/nifer yr ysgolion, darparu lleoedd ychwanegol/ysgolion newydd, neu newid ystodau oed ysgolion
- cydbwysedd y ddarpariaeth, er enghraifft nifer a chyfran yr ysgolion cymunedol, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig
- angen i resymoli/gwella'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Gallai peth o'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod (Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007) (Lloegr a Chymru. Statudau, 2007). Gallai gwybodaeth cynllunio strategol arall gael ei ddal gan gyrff eraill, fel y colegau, esgobaethau, ac awdurdodau cyfagos.

### Yr ystod o ddata/gwybodaeth y gallai fod angen i awdurdod ei hystyried wrth ddatblygu cynigion

- Hyfywedd addysgol ac ariannol ysgolion, yn cynnwys ar gyfer ysgolion a farnwyd gan Estyn bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt (mae Adran 19 Deddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ALI i gau ysgol sy'n destun mesurau arbennig).
- Unrhyw bolisi ALI ar faint ysgolion ac addysgu oed cymysg – rhiad i unrhyw gynigion gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau sef y mae'n rhaid i ddosbarthiadau babanod gynnwys 30 neu lai o ddisgyblion (ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig a nodwyd yn y Rheoliadau). Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi darparu arian i gyflawni dosbarthiadau iau o 30 neu lai.
- Data Cynllun Rheoli Asedau (cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd adeiladau).
- Maint safleoedd ysgolion a lle i ehangu.





- Safleoedd sydd ar gael ar gyfer ysgolion newydd/adleoli/cydleoli ysgolion/cael gwared ar safleoedd rhanedig.
- Materion cynllunio/safle mewn perthynas â safleoedd presennol a rhai newydd.
- Amserau/pellter teithio i'r ysgolion agosaf a chostau cylchol.
- Cyfleoedd presennol a rhai posib ar gyfer trefniadau cydweithio – er enghraifft, sefydlu ysgol aml-safle neu hybu ffederasiwn o gyrff llywodraethu ysgolion mewn cymdogaeth yn hytrach na chau ysgol.
- Lefel yr amddifadedd cymdeithasol ac effaith unrhyw gaeadau/cyfuno/adleoli ar gydlyniad cymdeithasol/cymunedol, adfywiad, defnydd cymunedol a phentrefi gwledig.
- Effaith ar yr iaith Gymraeg.
- Effaith ar drefniadau derbyn (yn cynnwys dalgylchoedd).
- Defnydd cymunedol presennol neu bosib o lety dros ben, yn cynnwys gwneud llety ar gael i wasanaethau ffurfiol neu anffurfiol os bydd ysgol yn cau.





# 4 Datblygu’r opsiynau

Mae angen darbwyllo pobl am y rhesymeg sylfaenol ar gyfer y newidiadau arfaethedig i drefniadaeth ysgolion, ac y bydd y meini prawf, egwyddorion ac amcanion sylfaenol i’r newidiadau hyn yn arwain at well effeithiolrwydd ysgolion, er enghraifft:

> *Darparu lleoedd digonol mewn ysgolion sy’n hyfyw yn addysgol ac yn ariannol, yn adlewyrchu anghenion cymunedol, ac yn darparu safon addysg dda, er mwyn i rieni allu troi’n hyderus at eu hysgol leol – ‘ysgolion lleol i blant lleol’.*

## Enghreifftiau

Enghreifftiau eraill o’r rhesymau a gynigir ar gyfer newid yw:

- gwell safonau
- creu system gydlynus o drefniadaeth ysgolion, gan ddarparu gwell cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a’r galw am leoedd i ddisgyblion
- sicrhau bod ysgolion o faint sy’n eu gwneud yn hyfyw yn addysgol ac yn ariannol (gallai hyn fod drwy drefniadau cydweithio, ehangiadau a chyfuniadau)
- gwell gwerth am arian – defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau, er mwy i’r holl blant elwa o ysgolion â gwell adnoddau (arian refeniw a chyfalaf fel ei gilydd)
- mynd i’r afael â dewis rhieni ar gyfer mathau o ysgolion, er enghraifft, cyfrwng Cymraeg neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig
- galluogi ystod oed ddymunol
- rhesymoli darpariaeth AAA
- rhesymoli darpariaeth ôl-16 ac ehangu opsiynau 14–19
- mynd i’r afael â chyflwr ac anghenion addasrwydd adeiladau ysgolion.

Bydd ymgynghoreion hefyd yn dymuno cael sicrwydd bod y datrysiadau a gynigir yn gost-effeithiol ac yn fforddiadwy (mewn perthynas â’r costau cyfalaf a chylchol) ac yn cynrychioli gwerth am arian yn gyffredinol yn y tymor hir, yn ogystal â bod adnoddau ariannol digonol i weithredu’r cynigion. Yn wir, lle mae ad-drefnu ysgolion yn gysylltiedig ag argaeledd arian cyfalaf i weithredu’r newidiadau (er enghraifft, lle mae angen arian cyfalaf i ddarparu lleoedd digonol i ddisgyblion a gollodd eu lle neu i ddarparu ar gyfer galw yn y dyfodol lle y cynigir y bydd ysgol yn cau), mae arian o’r fath yn rhagofyniad penderfyniad i gymeradwyo’r newid arfaethedig. O ganlyniad, gallai arian cyfalaf annigonol neu ddiffyg arian o’r fath i greu ysgol newydd arfaethedig rwystro’r penderfyniad ar gau ysgolion a fwriedir i greu lle ar gyfer yr ysgol newydd.





Mae angen i awdurdodau, felly, weithio drwy ofynion adeiladu a goblygiadau dylunio eu hopsiynau ar gyfer newid i raddau digonol, er mwyn gallu dangos y bydd arian cyfalaf yn ddigonol i ddarparu cyfleusterau i'r ysgolion a ad-drefnwyd/newydd sy'n briodol ar gyfer gwella'r addysg a gynigir i'r disgyblion yr effeithir arnynt gan y newidiadau.

Yn wir, gallai derbynebau cyfalaf fod yn ffynhonnell bwysig o arian cyfalaf, lle maent yn deillio o werthu safleoedd ysgolion a ryddhawyd fel rhan o'r ad-drefnu ysgolion arfaethedig, drwy drefniadau cyfnewid tir fel rhan o gynllun datblygu ehangach, neu ryddhau adeiladau nad ydynt yn adeiladau ysgol nad oes eu hangen bellach at eu defnydd blaenorol o ganlyniad i gwrdd â'u hanghenion ar safleoedd ysgolion a ymestynnwyd. (Yn gyffredinol, disgwylir i awdurdodau ailgylchu asedau o unrhyw adeiladau ysgolion a safleoedd dros ben i mewn i wella eu hadeiladau ysgolion yn gyffredinol, yn hytrach na dyrannu'r enillion hynny i brosiectau y tu allan i'r portffolio addysg, er mai penderfyniadau awdurdodau lleol yw'r rhain yn y pen draw.)

At hynny, lle mae darpariaeth chweched dosbarth ysgol yn cael ei throsglwyddo o sefydliad addysgol arall, ynghyd â dysgwyr o sectorau eraill, mae buddsoddiad cyfalaf yn debygol o gael ei dynnu o nifer o ffynonellau. Mewn achosion o'r fath, bydd yn bwysig cael cadarnhad ysgrifenedig gan bob un o'r ffynonellau ariannu.

Wrth gwrs, ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), gallai gwariant llywodraethwyr gael ei gefnogi gan gymorth grant o hyd at 85 y cant gan y Rhaglen Adeiladu VA a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond bydd angen cael cadarnhad o gymorth grant o'r fath.

Felly, cyn datblygu opsiynau ac yna yn ddilynol wrth gyhoeddi cynigion statudol, mae angen i awdurdodau:

- wneud asesiad o'r goblygiadau ariannol, yn benodol i sicrhau y gellir cwrdd ag unrhyw gostau cyfalaf cysylltiedig â gweithredu'r cynigion
- cadarnhau y bydd arian cyfalaf ar gael ar y lefel ofynnol ac ar yr amser iawn.

At hyn, bydd angen i awdurdodau ddarparu amcanbrisiau o gostau ariannol eraill ac arbedion yr ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys, er enghraifft:

- costau rheoli'r ymgynghori a'r ad-drefnu
- unrhyw effaith gan y newidiadau arfaethedig ar gostau cludiant
- costau colli gwaith/adleoli posib
- costau trefniadau adleoli pobl dros dro
- unrhyw gymorth ariannol ar gyfer rheoli'r trosglwyddo a newid
- arbedion posib i'w hailddosbarthu i gyllidebau ysgolion
- arbedion posib ar atgyweiriadau a chynnal a chadw.

Yn gyffredinol, disgwylir i awdurdodau ailddyrannu arbedion refeniw a wnaed drwy dynnu gallu dros ben allan o'r portffolio addysg. Fodd bynnag, mae rhai lleoedd gwag yn angenrheidiol er mwyn galluogi ysgolion i ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion. Ond mae gormod o leoedd neu ysgolion nas defnyddir yn golygu bod adnoddau wedi'u clymu a hynny mewn modd nad yw'n gynhyrchiol, ac mae'n bwysig bod arian ar gyfer addysg yn





cael ei ddefnyddio'n gost effeithiol a bod adnoddau a dargedir tuag at godi safonau yn cael eu mwyafu. At hynny, gall cadw gormod o ysgolion/lleoedd wrth i niferoedd disgyblion ostwng achosi problemau addysgol ac ariannol i ysgolion.

Yr argymhelliad yw, felly, y dylai awdurdodau anelu at sicrhau:

- dim mwy na chyfanswm o ddeg y cant o leoedd dros ben
- dosbarthiad rhesymol o leoedd dros ben rhwng ysgolion, er y gallai fod gan ysgolion unigol lefelau uwch o leoedd dros ben, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

At hynny, lle mae'r cydbwysedd galw yn symud rhwng ysgolion o'r un math, mae angen i awdurdodau ystyried a yw trefniadau derbyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ac a fyddai'n fwy priodol i newid trefniadau derbyn, yn cynnwys dalgylchoedd, yn hytrach nag ychwanegu darpariaeth. Yn wir, o ystyried bod niferoedd y disgyblion ar gofrestri yn parhau i syrthio yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ni ddylai fod angen fel arfer darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol lle mae eraill o'r un math o fewn pellter rhesymol – byddai angen dadlau achos y byddai cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd mewn ysgol benodol yn amlwg er budd yr holl blant lleol.

Yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg neu grefyddol newydd, neu ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion o'r fath, rhaid asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o'r fath a chynnig tystiolaeth ohono – gallai gordanysgrifio a niferoedd sylweddol o apeliadau nodi galw gan rieni nad yw'n cael ei ddiwallu ond gallai hefyd nodi diffyg cadernid o ran trefniadau derbyn.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er budd darpariaeth addysg yn yr ardal. Gallai hyn gynnwys y ddadl gydraddoldeb y bydd yn arwain at yr adnoddau addysgol cyffredinol yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng yr holl ysgolion a phlant, ac felly'n fuddiol i lawer yn hytrach nag i ychydig (nid oes tybiaeth o blaid neu yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol, yn cynnwys ysgolion gwledig).

Mae angen, fodd bynnag, i awdurdodau ystyried ffyrdd i leihau effeithiau andwyol cyn gweithredu cynigion ar gyfer cau, a chynnal asesiad i sefydlu a yw'r achos dros gau yn gryfach nag ystyriaethau eraill. At hynny, lle nad yw'n ymarferol i un awdurdod gynnal ysgol uwchradd, gallai fod yn werth ystyried a allai cydweithio gydag awdurdod arall sicrhau parhad i ddisgyblion rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd – mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd.

Bydd angen i'r awdurdod ystyried hefyd effaith yr opsiynau ar:

- yr iaith Gymraeg, lle mae ysgol yr effeithir arni yn un cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog – bydd hyn yn cynnwys paratoi asesiad effaith iaith, a lle bydd yr opsiynau yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion gael mynediad i leoedd cyfrwng Cymraeg eraill, dylai'r ysgol fod o fewn pellter teithio rhesymol a chynnig safonau a chyfleoedd cyfartal o leiaf ar gyfer cynnydd yn yr iaith Gymraeg
- teuluoedd lleol a'r gymuned leol – bydd hyn yn cynnwys paratoi asesiad effaith gymunedol, yn cynnwys sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau ac ymgysylltu cymunedol a gynigir gan ysgolion (fel gweithgareddau cyn ysgol ac ar ôl ysgol)





- polisïau corfforaethol (er enghraifft, adfywio cymdeithasol, cydlyniad cymunedol, integreiddio gwasanaethau plant a chynaliadwyedd)
- yr effaith ar safon y ddarpariaeth feithrin, a nifer y plant dan bump sy'n cael eu hamlygu'n ddigonol i'r iaith Gymraeg i'w galluogi i wneud dewisiadau hyderus i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, a pha mor ddymunol yw integreiddio addysg blynyddoedd cynnar a gwasanaethau plant.

## Meini prawf, egwyddorion ac amcanion ar gyfer pennu ad-drefnu ysgolion

Gallai'r rhain gynnwys y canlynol.

**Cyfateb nifer a lleoliad y lleoedd mewn ysgolion â'r galw**

- A oes angen cael gwared ar leoedd dros ben, a/neu gau/cyfuno ysgolion? Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle mae gan ysgolion unigol lefelau sylweddol o leoedd dros ben sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol, neu fod ganddynt ddalgylch sy'n annhebygol o ddarparu niferoedd digonol o ddisgyblion i'w wneud yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- A oes angen ychwanegu lleoedd newydd neu agor ysgolion newydd?

**Ysgolion yn meddu ar ystodau oed priodol, yn cynnwys digon o leoedd 16–19, naill ai ar safleoedd ysgolion neu golegau tertaidd/AB/chweched dosbarth**

**Ysgolion yn darparu addysg o safon dda, yn ôl tystiolaeth adroddiadau Estyn a mesurau perfformiad eraill**

**Cydbwysedd priodol o addysg cyfrwng Cymraeg ac ysgolion gyda chymeriad crefyddol dynodedig**

- Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth benderfynu ar gynigion i gau ysgolion o'r fath.

**Lleoliad ysgolion mewn perthynas â'r cymunedau a'r dalgylchoedd y maent yn eu gwasanaethu**

- Bydd hyn yn cefnogi rhaglenni adfywio a mwyafu cysylltiadau ac ymgysylltu posib â'r gymuned.
- Mae hyn yn arbennig o bwysig i ysgolion gwledig, sy'n aml yn ffocws hollbwysig i'r gymuned leol.

**Ysgolion o fewn pellter teithio/amserau teithio rhesymol i gartrefi disgyblion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig**

- Dylid rhoi ystyriaeth bwysig i anawsterau cludiant posib a'r effaith ar ymgysylltu disgyblion â'r ysgol â'u presenoldeb ynddi, er enghraifft, asesu llwybrau cerdded neu feicio tebygol o safbwynt diogelwch a hygyrchedd, lles plant pe byddai teithiau un ffordd yn hwy na 45 munud i ddisgyblion cynradd neu awr i ddisgyblion uwchradd, cost gylchol cludo disgyblion i ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd, ac amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tagfeydd traffig ac allyriadau carbon a hybu dulliau amgen i geir.




**Gwella priodoldeb/hygyrchedd safleoedd ysgolion a chael gwared â safleoedd rhanedig**

**Defnyddio llety dros ben i wella defnydd cymunedol**

**Lle mae angen ysgolion i wasanaethu cymuned benodol, sicrhau nad yw'r trefniadau derbyn yn yr ardal ehangach yn annog colli disgyblion i ysgol arall**

**Sicrhau'r ddarpariaeth AAA fwyaf effeithiol**

- P'un a yw hyn mewn ysgolion prif ffrwd, lleoliadau adnoddau arbenigol cysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, neu ysgolion arbennig, rhaid iddo ystyried mynediad i'r cwricwlwm, mynediad corfforol i adeiladau'r ysgol a'r effaith debygol ar wasanaethau eraill a ddarparwyd i ddisgyblion ag anableddau a/neu AAA.

**Sicrhau gwerth am arian**

- Mae hyn yn cynnwys ystyried a fyddai angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf i ddod â'r adeiladau i safon addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Er enghraifft, gallai fod yn ymarferol ac yn ddarbodus cyd-leoli gwasanaethau lleol o fewn ysgol neu ddarparu gwasanaethau i'r gymuned drwy ddefnyddio rhannau o adeiladau'r ysgol er mwyn gosod yn erbyn costau cynnal ysgol.

**Cefnogi egwyddorion ac arfer da cynaliadwyedd**

Gall defnyddio matrics i sgorio pob opsiwn yn erbyn meini prawf/egwyddorion/amcanion cytunedig helpu'n aml i ddangos y ffactorau rhyngweithiadol, ac felly helpu i egluro'r rhesymau dros ddewis cynigion penodol.





# 5 Ymgynghori

## 5.1 Pwy ddylid ymgynghori â hwy?

Yr ymgynghoreion allweddol yw:

- penaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr
- disgyblion, rhieni a'r gymuned leol
- ysgolion eraill y gellid effeithio arnynt
- undebau llafur a chymdeithasau proffesiynol
- awdurdodau lleol cyfagos.

Gallai rhai o'r ymgynghoreion eraill gynnwys, lle y bo'n briodol:

- AB ac AU
- esgobaethau
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cynigion ynghylch ysgolion perthnasol
- gwasanaethau iechyd
- Cynrychiolwyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA).

## 5.2 Ymgynghori cynnar ar y cam ffurfiannol

Mae angen i ymgynghori ddigwydd gyda'r holl bartïon â diddordeb pan fydd cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol, er mwyn canfod barn a dyheadau ar gyfer darpariaeth addysgol yn y dyfodol ymhell cyn cyhoeddi'r cynigion statudol. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru fel arfer yn disgwyl i ymgynghoriad o'r fath gael ei gynnal yn ystod y 12 mis cyn cyhoeddi cynigion statudol. (Pan cynigir ysgol newydd ac nad ALl yw'r cynigwyr arfaethedig, mae disgwyl iddynt drafod eu cynigion ar gam cynnar gyda'r ALl fyddai'n cynnal yr ysgol newydd arfaethedig, hynny yw, cyn i'r ymgynghori ddigwydd. Os nad yw'r ALl yn cefnogi'r cynnig, nid yw hynny'n atal yr hyrwyddwyr rhag cyhoeddi eu cynigion, ond bydd yn ffactor a ystyrir gan Weinidogion Cymru, os yw'r cynnig yn denu gwrthwynebiad, neu os caiff y cynnig ei 'alw i mewn' i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.)

At hynny, pan fydd penaethiaid a chyrff llywodraethu yn rhan o'r broses o'r dechrau ac y gellir eu darbwyllo bod angen newid, byddant yn fwy parod i gymryd rôl arweiniol a chydweithio er lles cyffredin ysgolion a'u disgyblion. Felly, os yn bosib, mae'n ddymunol cael trafodaethau cyfrinachol a gonest gyda phenaethiaid a llywodraethwyr yn gynnar yn y broses. Mae hefyd yn ddymunol cofnodi'r lefel o gytundeb a geir ar y cam hwn yn dda, gan efallai na fydd cefnogaeth i syniad mewn egwyddor yn parhau pan ddaw'r goblygiadau ar gyfer ysgolion unigol yn glir.

Dylai'r ymgynghoriad ystyried:

- ystod y rhanddeiliaid gyda gwahanol wybodaeth arbenigol a blaenoriaethau, dealltwriaeth amrywiol o gyfanrwydd y dasg wrth law, a







chredoau, disgwyliadau ac amcanion sy'n wahanol, ac yn aml yn anghydnaws

- bod gwahanol randdeiliaid yn rhan o'r broses ac yr effeithir arnynt ar wahanol adegau yn ystod y broses
- y berthynas gymhleth ac anghyfartal rhwng y gwahanol randdeiliaid
- bod ymateb pobl i'r newidiadau arfaethedig wedi'i ddylanwadu gan ddigwyddiadau a phrofiadau blaenorol (gall ad-drefnu ysgolion blaenorol llwyddiannus fod yn ddadl argyhoeddiadol dros newid).

Amcan anodd ond angenrheidiol ar y cam cynnar hwn yw canolbwyntio ar y broblem i'w datrys ac osgoi neidio'n rhy gyflym i drafod datrysiadau dymunol. Dylai'r nod fod i gyfyngu trafodaeth i nodi ystod o ffyrdd ymlaen posib. Gallai'r awdurdod ddymuno, fodd bynnag, roi syniad o'r math o newidiadau i ysgolion sy'n cael eu hystyried, gan fod ysgolion a'r cyhoedd yn haeddiannol yn dymuno gwybod y goblygiadau posib i'w hysgolion. Er enghraifft, bydd gan ymgynghoreion yn aml nifer o bryderon ymarferol, fel pellterau teithio i ysgolion arfaethedig, trefniadau cludiant a pharcio, maint ysgolion, sut bydd dosbarthiadau yn cael eu trefnu, ansawdd yr ysgolion amgen a gynigir, amharu posib ar addysg plant, cyflogi staff yn y dyfodol, cyfleusterau'r ysgol (er enghraifft, a fydd neuadd yr ysgol yn ddigon mawr?) a cholli cyfleusterau cymunedol.

Gall fod ganddynt bryderon hefyd am oblygiadau'r ad-drefnu arfaethedig ar gyfer trefniadau derbyn ac unrhyw dalgylchoedd ysgolion. Gall hyn fod bron mor ddadleuol â chau/cyfuno ysgolion. Byddai felly yn ddoeth ymgynghori â rhieni, yn ogystal ag ysgolion, ar newidiadau posib i dalgylchoedd cyn yr ymgynghoriad ar newidiadau i ysgolion. Mae hyn oherwydd nad yw'n bosib newid un dalgylch heb effeithio ar ysgolion eraill, y gallent fel arall fod yn berffaith hapus â'r cynigion ad-drefnu ysgolion. Y canlyniad net yw ei fod yn dod yn anodd iawn newid yr hyn a gynigir ar gyfer dalgylchoedd, waeth bynnag fydd canlyniad y cynnig statudol.

## 5.3 Ymgynghori ar gynigion gyda'r bwriad i gyhoeddi hysbysiadau statudol

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i ymgynghori ar gynigion gyda'r bwriad i gyhoeddi hysbysiadau statudol, dylid hysbysu'r partïon perthnasol a, lle y bo'n berthnasol, eu gwahodd i gyfarfodydd ymgynghori. Dylid fel arfer caniatáu mis o leiaf, a mwy na hynny yn ddelfrydol, yn dilyn cylchu'r ddogfen ymgynghori, ar gyfer cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r opsiwn neu opsiynau. Lle nad oes ymgynghori blaenorol wedi digwydd, gallai cyfnod o ddau fis fod yn fwy priodol er mwyn rhoi digon o amser i bartïon perthnasol ymateb. Mae'n bwysig, yn ystod ymgynghori, i hysbysu partïon perthnasol ynghylch yr amser priodol i gyflwyno'u barn. Gall a yw'r amser a ganiateir ar gyfer ymgynghori yn ddigonol fod yn fater i'r llysoedd benderfynu, ac mae amgylchiadau o frys penodol a allai arwain ar gwtogi amserau ymgynghori.

Gellid llunio amserlen neu siart lif, yn disgrifio'r broses ynghylch cynigion statudol a'i defnyddio i hysbysu'r cyhoedd. Darparwyd sampl o siart lif yn Atodiad 4, y gellir ei haddasu ar gyfer cynigion unigol.





Mae hefyd yn bwysig pwysleisio'r pwyntiau canlynol.

- Pan fydd cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion yn deillio o adolygiadau strategol ar ddarpariaeth ysgolion, nid yw'r ymgynghoriad a gynhelir fel rhan o adolygiadau strategol o'r fath yn disodli'r ymgynghoriad ffurfiol angenrheidiol ar gynigion unigol cyn gwneud penderfyniadau i gyhoeddi hysbysiadau.
- Nid oes gofyniad i ymgynghori ar un opsiwn dymunol ac os yw ystod o opsiynau yn cael eu hystyried mewn gwirionedd, mae'n bwysig ceisio barn ar bob un ohonynt.
- Pan fydd nifer o opsiynau wedi'u trafod ac nad yw'r awdurdod wedi nodi opsiwn dymunol eisoes, gallai fod yn briodol cynnal ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn dymunol.
- Os oes opsiwn dymunol, dylid nodi hyn yn glir er mwyn galluogi ymgynghoreion i ganolbwyntio arno, gan ofalu i osgoi rhoi'r argraff bod y Cyngor wedi penderfynu'r canlyniad ymlaen llaw – os cyflwynir cynnig cyflawn, gallai beirniaid gwyno nad oedd neb wedi ymgynghori â hwy ar gam cynharach pan oedd cynigion yn dal i gael eu llunio, a gallai'r rheiny sy'n anghytuno â'r cynigion brotestio bod yr ymgynghoriad yn rhywbeth ffug a bod y canlyniad wedi'i benderfynu eisoes. Gall hyn fod yn sail ar gyfer adolygiad barnwrol, ac mae enghreifftiau o awdurdodau yn gorfod ail gynnal proses ymgynghori gyfan oherwydd bod papur ymgynghori yn edrych fel cyhoeddiad o benderfyniad.
- Os ymddengys mai opsiwn dymunol clir yw'r unig ffordd synhwyrol ymlaen, mae'n annoeth cynnig posibiliadau nad ydynt yn ddichonol, er mwyn osgoi ymddangos bod y canlyniad yn anochel yn fwy na heb.
- Os yn bosib, a chan gadw mewn cof yr angen i beidio â chyn-farnu canlyniadau, dylid rhoi syniad cyffredinol i rieni am sut y byddai cynnig yn debygol o gael ei weithredu ac unrhyw drefniadau trosglwyddo angenrheidiol fyddai'n cael eu gwneud pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- Os, yn ystod yr ymgynghori, y bydd opsiwn gwahanol yn ymddangos a bod y Cyngor yn cael ei argyhoeddi i'w ystyried, bydd angen ymgymryd ag ymgynghoriad ffurfiol newydd ar yr opsiwn penodol hwnnw – mae felly yn ddymunol sicrhau bod unrhyw opsiwn sydd â chyfle rhesymol o droi'n gynnig cadarn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ffurfiol.

## 5.4 Cynllun ymgynghori

Mae awdurdodau yn defnyddio nifer o ymagweddau at ymgynghori, ond y ddwy brif ymagwedd yw dogfennau ymgynghori a chyfarfodydd ymgynghori. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio'r canlynol:

- gall fod yn anodd profi digonolrwydd ymgynghori os na chaiff dogfen ymgynghori ei chynhyrchu
- mae angen i wahoddiadau i gyfarfodydd ymgynghori fod yn glir iawn i sicrhau bod y partïon perthnasol yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad.

At hynny, pan yn datblygu'r cynlluniau hyn ar gyfer ymgynghori (gydag ysgolion, rhieni, y gymuned ehangach a rhanddeiliaid allweddol eraill) – o





ddatblygu'r cynigion yn wreiddiol i weithredu unrhyw benderfyniadau – gall fod yn ddefnyddiol o ran rheoli gwybodaeth drwy gydol y broses os bydd y trefniadau ymgynghori hyn wedi'u nodi mewn cynllun sy'n cynnwys y cerrig milltir allweddol, y trefniadau ar gyfer cyfathrebu â gwahanol randdeiliaid a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir fel y bo'n briodol ar gyfer pob cynulleidfa. At hynny, gall awdurdod ddymuno cael swyddog dynodedig yn gyfrifol am gynhyrchu a rheoli'r cynllun ymgynghori hwn (byddai angen cael peth dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol ar ymgynghori ar ad-drefnu ysgolion.)

Fel rhan o'r cynllun hwn, mae angen cyfathrebu papur (copi caled) ag ysgolion a rhieni, gan roi'r wybodaeth sylfaenol angenrheidiol a hysbysu pobl ynghylch ble y gallant gael y dogfennau llawn, naill ai mewn llyfrgelloedd, ysgolion, swyddfeydd y cyngor neu drwy'r wefan. Bydd yr wybodaeth a roddir i ymgynghoreion yn dibynnu wrth gwrs ar gymhlethdod y cynigion, er enghraifft, lle y gofynnir i ymgynghoreion ystyried trosglwyddo eu plant i adeilad ysgol newydd neu bresennol, dylai fod ganddynt fynediad i fapiau, cynlluniau neu argraffiadau artist o'r hyn a ddarperir o ganlyniad i'r cynigion, yn enwedig pan fyddai newidiadau yn cael eu gwneud i adeiladau ysgol.

Bydd angen dosbarthu dogfennau ymgynghori a sicrhau eu bod ar gael mewn cyfarfodydd ymgynghori hefyd. Dylent wahodd sylwadau ar opsiynau, ac egluro sut y gall ymgynghoreion gyflwyno'u barn, gan sicrhau bod digon o amser i'r rheiny yr ymgynghorir â hwy lunio barn ystyrlon. Dylai'r dogfennau hefyd:

- ddarparu crynodeb o'r cynigion sy'n cael eu hystyried
- nodi'r broblem y mae angen mynd i'r afael â hi a'r rhesymau dros y newidiadau a gynigir
- egluro pam mae'r awdurdod yn credu y bydd plant yn derbyn yr un addysg neu addysg well yn dilyn newidiadau o'r fath, o'i chymharu â'r ddarpariaeth addysgol bresennol
- rhoi asesiad cytbwys o fanteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau, gan gyflwyno'r dadleuon hyn mewn ffordd gytbwys a'u cefnogi gyda data/gwybodaeth perthnasol a diweddar
- darparu gwybodaeth a manylion digonol ar y cynigion penodol, gan sicrhau bod y derbynwyr yn deall effeithiau posib y cynigion ar yr ysgolion a enwir, ac yn cwmpasu:
    - yr ysgolion y cynigir newidiadau iddynt, neu yr effeithir arnynt gan y newidiadau arfaethedig hyn, yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion gyda chymeriad crefyddol dynodedig
    - nifer ar y gofrestr, gallu, cyflwr a nifer rhagamcanedig y lleoedd disgyblion fydd eu hangen yr ysgolion presennol
    - yr ardal ddaearyddol a gwmpesir
    - y mathau o newidiadau sy'n cael eu hystyried, fel ehangu, cau, cyfuno, ysgolion newydd, ac ati, gan roi gallu, lleoliad ac ystod oed arfaethedig yr ysgolion
    - unrhyw drefniadau trosglwyddo





- cyfleusterau i’w darparu mewn unrhyw ysgol amgen neu newydd a chost y gwaith adeiladu gofynnol i weithredu’r newidiadau, a ffynonellau arian cyfalaf, yn cynnwys derbynebau cyfalaf posib
- costau ac arbedion refeniw posib (hyd yn oed os cânt eu hailgyfeirio i gyllidebau ysgolion eraill)
- unrhyw newidiadau i drefniadau cludiant a threfniadau derbyn statudol

- gosod camau ac amserlenni’r gwahanol brosesau dan sylw (er enghraifft, adroddiadau/penderfyniadau’r Cyngor a chyhoeddi hysbysiadau statudol) er mwyn i’r holl bartïon â diddordeb ddeall pwy sy’n penderfynu beth a phryd, yn ogystal â phryd y gallant gymryd rhan mewn trafodaethau/cyfarfodydd fel y bo’n briodol
- gosod amserlenni ar gyfer gweithredu’r newidiadau arfaethedig i ysgolion eraill
- bod yn hawdd eu deall ac yn hygyrch.

Rhoddir amlinelliad awgrymedig ar gyfer dogfen ymgynghori yn Atodiad 6. At hynny, gall dogfen ymgynghori gryno ddarparu ffocws defnyddiol ar gyfer trafod mewn cyfarfodydd ymgynghori, a gellir ei defnyddio fel rhan o’r dystiolaeth o ymgynghori sy’n ofynnol gan Reoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion)(Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999). Gellir ei hadolygu a’i diwygio yn ddiweddarach er mwyn ffurfio sylfaen y datganiad achos, y mae’n ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl i’r cynigion gael eu cyhoeddi.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried y defnydd o wefannau. Gall y rhain alluogi pobl i gael mynediad i ddogfennau/adroddiadau eraill y cyngor ac arweiniad ac i ymholi hyd at lefel y manylder sydd ei angen arnynt, yn enwedig os oes Cwestiynau Cyffredin sy’n cael eu diweddaru’n rheolaidd. Gallant hefyd roi’r cyfle i ysgolion a’r cyhoedd ofyn cwestiynau neu gyflwyno eu barn. Mae’r gwefannau hyn hefyd yn cynnig ffordd hawdd i hysbysu ysgolion a’r cyhoedd am gynnydd gyda’r ymgynghoriad neu weithredu newidiadau i ysgolion, a phryd y bydd adroddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi neu benderfyniadau yn cael eu gwneud.

### Argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth o’r hyn y mae ALlau yn teimlo sydd wedi gweithio’n dda

- Osgoi ymgynghori gyda thaflen wag o bapur – yn hytrach, dylid ymgynghori i ddechrau ar y materion a’r egwyddorion eang ac yna ymgynghori ar ystod o opsiynau, gan ddangos y goblygiadau posib ar gyfer ysgolion unigol.
- Rhagweld ac ymateb i bryderon rhieni ynghylch newidiadau arfaethedig, er enghraifft: A fydd neuadd a buarth yr ysgol mewn ysgol sy’n ehangu yn ddigon mawr? A fydd digon o leoedd i ddisgyblion yn yr ysgol sy’n derbyn?
- Bod yn agored wrth ymateb i farn ysgolion a rhieni a cheisiadau am wybodaeth. Pan godir ceisiadau ychwanegol am wybodaeth neu bryderon, dylid ymateb i’r rhain yn gadarnhaol.





- Sicrhau bod rhieni ac ysgolion yn deall goblygiadau a chanlyniadau ymarferol y polisïau a'r egwyddorion sy'n tanategu'r ad-drefnu ysgolion arfaethedig.
- Sicrhau cofnodi'r broses yn drylwyr a chadw cofnodion clir o'r farn a dderbynnir.
- Sicrhau yn y cam olaf o ymgynghori ffurfiol bod opsiwn dymunol y cyngor ar gyfer pob ysgol yn cael ei wneud yn glir i rieni ac ysgolion, er mwyn iddynt allu cyflwyno unrhyw wrth-ddadleuon i hyn, yn ogystal â chynnig cynigion amgen y byddent yn hoffi i'r Cyngor eu hystyried.
- Cyflwyno manteision/posibiliadau penodol mewn perthynas ag adeiladau a chyfleusterau, gan y bydd hyn yn annog cefnogaeth gan staff, disgyblion a rhieni i'r newidiadau arfaethedig.
- Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer CC a pherthynas waith effeithiol gyda'r cyfryngau lleol.
- Darparu eglurhad clir o benderfyniadau'r awdurdod, gan gydnabod a gwerthfawrogi'n llawn pob barn a fynegir, ac eglurhad ynghylch pam y cafodd rhai barnau eu diystyru.

## 5.5 Cyhoeddi cynigion

Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer yr ymgynghoriad fynd heibio, mae'n rhaid paratoi dogfen grynodeb, yn nodi'r ymatebion a dderbyniwyd (gellir cyflwyno'r ddogfen hon i Lywodraeth Cynulliad Cymru, os bydd cyhoeddi yn dilyn, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori fel rhan o dystiolaeth yr ymgynghori).

Mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi datganiad digon manwl o'u hymateb i'r ymgynghoriad, a dangos sut, wrth ddod i benderfyniad, y maent wedi ystyried y farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghori. Mae angen felly i'r amserlen ddarparu digon o amser i ystyried adborth gan yr ymgynghoriad cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen at hysbysiadau statudol.

Dylid gwneud penderfyniadau o'r fath yng ngoleuni amgylchiadau lleol, gan gadw mewn cof yr angen i sicrhau tegwch. Os bydd yr ymgynghoriad yn arwain at wrthwynebiadau cryf neu resymau gwirioneddol dros ailfeddwl, mae'n rhaid gwneud dewis rhwng parhau â chynigion a allai fod yn ddiffygiol ac ailagor yr ymgynghori ffurfiol. Os bydd awdurdod yn penderfynu peidio â pharhau neu nad oes angen cyhoeddi hysbysiad statudol ar weithredu priodol, ni fydd y broses yn mynd ymhellach. Wrth gwrs, yn ystod yr ymgynghori, gallai opsiwn newydd ymddangos y gallai'r cynigiwyr ddymuno ei ystyried. Mae fel arfer yn briodol ymgynghori o'r newydd ar yr opsiwn hwn cyn gwneud penderfyniad i gyhoeddi cynigion.

Mae gwrthwynebwyr yn aml yn ceisio ymgasglu grŵp sylweddol o'r cyhoedd i leisio barn yn erbyn cynnig. Fodd bynnag, nid refferendwm yw ymgynghoriad. I fod yn fanwl gywir, ni ddylai'r penderfyniad gael ei wneud o ganlyniad i bleidlais boblogaidd – dim ond un o'r ffactorau yw hwn y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud y penderfyniad. Mae effeithiolrwydd y rhesymau a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad yn bwysicach na nifer y bobl sy'n eu cyflwyno. Felly, gallai deiseb gyda 100 o enwau arni yn dweud 'nid ydym yn





hoffi hyn' gael llai o ddylanwad nag un llythyr sy'n datgelu diffyg gwirioneddol yn y cynigion. Wrth ddod i benderfyniad, rhaid ei fod yn bosib dangos, pe byddai'n cael ei herio, bod yr holl faterion perthnasol ddaeth i'r golwg yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u hystyried. Gellid barnu nad yw'r barnau a fynegwyd yn argyhoeddiadol, ond nid ellir anwybyddu'r barnau hyn yn fwriadol. Rhaid gwneud y penderfyniad yn ôl rhinweddau achos yng ngoleuni'r holl dystiolaeth.

At hynny, pan fydd y penderfyniad ar gynigion yn cael ei wneud, mae digonolrwydd yr ymgynghoriad yn aml yn ymddangos fel mater dadleuol. Mae'r gyfraith yn ei wneud yn ofynnol ystyried 'barn partïon â diddordeb', ac os na fu cyfle digonol i'r barnau hyn gael eu mynegi, mae'r broses yn ddiffygiol. Gallai'r Gweinidog wrthod cynnig oherwydd bod y broses yn annigonol neu fod diffyg difrifol ynddi.

Ar ôl i'r awdurdod ddod i benderfyniad ar a yw am wneud newidiadau a pha rai i'w gweithredu, rhaid cyhoeddi hysbysiadau yn ôl fformat penodedig mewn papur newydd sy'n cwmpasu'r ardal (gweler Atodiad 7 a chyfeiriwch at *Reoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) Addysg 1999 (fel y'u diwygiwyd) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)*).

Ar ôl i'r cynigion gael eu cyhoeddi, **nid oes cyfle pellach i ymgynghori**. Mae'r term ymgynghori yn berthnasol i'r cyfnod **cyn** y gwneir penderfyniadau terfynol i fwrw ymlaen i gyhoeddi cynnig yn unig. Mae'r ddau fis sydd ar gael yn dilyn y cyhoeddi er mwyn galluogi gwneud gwrthwynebiadau statudol ac nid ddylid byth cyfeirio atynt fel y cyfnod ymgynghori. Dylid hysbysu ymgynghoreion **na** fydd sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau, ac os ydynt am wrthwynebu mae'n rhaid iddynt wneud hynny **yn ysgrifenedig** yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Dylid dweud wrth ymgynghoreion lle fydd yr hysbysiadau yn ymddangos, pryd mae'r cyhoeddi yn debygol o ddigwydd ac ym mha bapur newydd y byddant yn cael eu cyhoeddi. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod partïon â diddordeb sydd wedi mynegi gwrthwynebiad neu bryder yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael gwybod pryd fydd yr hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi.





# 6 Gwneud penderfyniadau

Mae cynigion statudol i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn dod i Weinidogion Cymru i'w penderfynu yn bennaf pan fydd cynigion o'r fath yn denu gwrthwynebiadau neu pan fydd Gweinidogion Cymru yn galw'r cynigion i mewn. Gallai Gweinidogion Cymru:

- gymeradwyo'r cynigion
- cymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau
- gwrthod y cynigion
- rhoi cymeradwyaeth amodol, fydd yn dod yn benderfyniad terfynol wedi i gamau i gwrdd â'r amod gael eu cyflawni er boddhad y Gweinidogion.

Mae Gweinidogion Cymru fel arfer yn ceisio cyhoeddi penderfyniad o fewn chwech neu saith mis o'r dyddiad y cyhoeddir y cynnig. Fodd bynnag, cyn addasu cynnig mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheiny a gyhoeddodd y cynigion ac, mewn rhai amgylchiadau, yr ALI a'r corff llywodraethu. Ni allant addasu cynnig mewn ffordd fyddai mewn gwirionedd yn amnewid cynnig arall am yr un a gyhoeddwyd.

Os bydd y rhai a gyhoeddodd y cynigion yn dymuno newid cynigion mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru i addasu'r cynnig, mae angen iddynt ail-lunio'r cynnig a chyhoeddi cynigion newydd. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n rhaid cael ymgynghoriad newydd gyda phartïon â diddordeb ac mae'n rhaid gosod hysbysiad yn y wasg leol.

Anfonir llythyr penderfyniad, yn rhoi rhesymau Gweinidogion Cymru dros y penderfyniad, i'r person neu'r corff a gyhoeddodd y cynigion a'i gopïo i'r ALI neu gorff llywodraethu fel y bo'n briodol. Caiff ei gopïo hefyd i bob un o'r gwrthwynebwyr statudol ac eithrio lle mae'r gwrthwynebwyr yn llofnodyddion deiseb, pan fydd copi yn cael ei anfon at y person a gyflwynodd y ddeiseb yn unig. Os bydd ysgol yn cael ei chau, bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn rhoi penderfyniad un tymor o leiaf cyn gweithredu'r cau.

Mae'r llythyr o benderfyniad a'r datganiad o wybodaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru fel sail y penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.wales.gov.uk, fel arfer dau ddiwrnod ar ôl iddo gael ei anfon at bartïon â diddordeb. Caiff pob achos ei farnu ar ei rinweddau.





# 7 Gweithredu

Mae'r meysydd y mae angen eu cwmpasu wrth gynllunio ar gyfer gweithredu'r penderfyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 7.1.

**Tabl 7.1 Meysydd a gwmpesir wrth gynllunio ar gyfer gweithredu**

| Meysydd allweddol | Pwyntiau i'w hystyried |
|---|---|
| Effaith ar dderbyniadau a dalgylchoedd | • Sut caiff ysgolion eu cefnogi os bydd niferoedd disgyblion yn gostwng o ganlyniad i'r adolygiad a chanlyniad cynigion statudol<br>• Newidiadau posib i dalgylchoedd, lle y defnyddir y rhain gan yr awdurdod (bydd angen ymgynghoriad ar wahân i newidiadau i dalgylchoedd) a goblygiadau posib i gludiant |
| Adeiladau ac adnoddau | • Dylunio ysgolion a gwaith adeiladu i ysgolion, ac unrhyw drefniadau dros dro cyn i waith adeiladu gael ei gwblhau<br>• Newidiadau i allu ysgolion<br>• Sut bydd adnoddau o ysgolion sy'n cau yn cael ei hailddyrannu<br>• Goblygiadau ariannol (refeniw a chyfalaf) |
| Staffio | • Trefniadau ar gyfer adleoli staff a chefnogi staff drwy'r cyfnod trosglwyddo<br>• Protocol staffio<br>• Cefnogaeth i staff, yn cynnwys cynigion ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a rhaglenni cefnogi rheoli newid, er mwyn sicrhau'r ffocws parhaus ar wella deilliannau addysgol i ddisgyblion |
| Trosglwyddo | • Sut caiff plant eu cefnogi gyda throsglwyddiadau i ysgolion newydd<br>• Ymagwedd y Cyngor at 'broblemau cynllunio' posib, lle mae ysgolion yn cael eu hystyried ar gyfer cau<br>• Trefniadau cyrff llywodraethu dros dro |





## 8 Cefnogaeth i ysgolion a rheoli newid

> [Mae'r gallu i gynllunio ar gyfer a rheoli newid cymhleth fel ad-drefnu ysgolion] *is likely to be inherently restricted because so many factors are beyond an individual's understanding* [or] *control. Hence the importance of preparation and, particularly, of pooling understanding from different stakeholders' viewpoints.*
>
> (Pocklington a Wallace, 2002)

Mae amryw achosion dros wrthwynebu newid, er enghraifft:

- hunan-ddiddordeb plwyfol
- camddealltwriaeth a diffyg ymddiriedaeth
- gwahanol asesiadau o'r sefyllfa
- goddefgarwch isel o ran newid.

Mae, felly, yn bwysig cydnabod efallai na fydd unrhyw grŵp gwrthwynebus a drefnwyd yn dilyn y rheolau, ac i ragweld unrhyw wyro negyddol a gwybodaeth anghywir (gallai hyn fod yn fwriadol neu'n anfwriadol ond mae'r effaith yr un fath). At hynny, bydd gwahodd y cyfryngau i mewn o'r dechrau i egluro'r hyn sy'n digwydd, a sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses, yn helpu i sefydlu'r wybodaeth gywir, gan felly osgoi'r angen i gywiro straeon niweidiol ar ôl iddynt ymddangos.

### Ffactorau llwyddiant allweddol

Mae profiad o fannau eraill yn awgrymu bod y canlynol yn ffactorau llwyddiant allweddol wrth reoli newid:

- arweinyddiaeth gref, proffil uchel gan yr ALI
- hysbysu a chynnwys aelodau etholedig drwy gydol y broses
- cydnabod cyrff llywodraethu fel rhanddeiliaid pwysig yn y broses
- cael adnoddau digonol o ran swyddogion (o safbwynt hynafedd, arbenigedd technegol ac amser) i gefnogi aelodau a'r broses gyffredinol
- ymgymryd â'r adolygiad mor sensitif a chyflym â phosib, er mwyn cydnabod y pwysau a'r amharu y gall ei achosi i ddisgyblion, rhieni a staff
- darparu cefnogaeth effeithiol i staff ysgolion a lleiafu'r amharu ar addysg plant drwy unrhyw gyfnod o newid
- gweithio'n agos â'r undebau ar bennu polisi adleoli ac ar gefnogaeth i staff ysgolion
- cytuno ar bolisi adleoli cyn gynted â phosib
- dyrannu swyddogion i ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chwnsela i staff ysgolion





- datblygu cyfleoedd DPP a mentrau effeithiolrwydd ysgolion fydd yn cefnogi recriwtio a chadw, yn ogystal â sicrhau ffocws parhaus ar wella safonau
- lle mae cyfuniadau ysgolion dan sylw, datblygu, annog a/neu gefnogi hyfforddiant a gweithgareddau ar y cyd rhwng yr ysgolion.

Mae angen i'r awdurdod, felly, feddwl am a chynllunio gweithredu cyn dechrau ar y broses ymgynghori – yn wir, mae llawer o'r cwestiynau y mae pobl yn eu gofyn yn ystod yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r cyfnod trosglwyddo a gweithredu newidiadau, yn cynnwys cost y gweithredu (cyfalaf a refeniw).

Bydd darparu cefnogaeth a gwybodaeth i lywodraethwyr, penaethiaid, a staff ysgolion drwy gydol y broses yn eu galluogi i ymdrin ag ymholiadau a phryderon, yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â materion adnoddau dynol, trefniadau trosglwyddo, dyluniad adeiladau ac ati. Fel rhan o hyn, mae'n allweddol mynd i'r afael â phryderon staff ysgolion am eu cyflogaeth yn y dyfodol, trefniadau ar gyfer adleoli staff a sut y cânt eu trin yn ystod yr ad-drefnu mor gynnar â phosib yn y broses, er mwyn:

- lleiafu pryder ac ansicrwydd posib i staff
- sicrhau trefniadau effeithiol, teg a chyson ar gyfer penodi staff i ysgolion newydd
- cynnal moral staff drwy gydol y broses ymgynghori ar, a gweithredu, unrhyw newidiadau
- sicrhau trosglwyddiad esmwyth yn ystod y cyfnod o newid.

Bydd yr ymagwedd y mae ALl yn ei chymryd at gefnogi staff a'u galluogi i gael swyddi newydd o fewn ysgolion eraill yn benderfynydd allweddol o ran moral staff, a bydd, felly, yn cael dylanwad uniongyrchol ar safonau mewn ysgolion, drwy gydol y cyfnod ymgynghori yn ogystal ag ar ôl i newidiadau gael eu gweithredu. Dylai'r gweithdrefnau hyn gael eu trafod hefyd a'u cytuno gan y Cyngor, yn enwedig o ystyried y goblygiadau ariannol ac adnoddau dynol posib.

Mae datblygu protocol o'r fath ar gyfer adleoli staff yn cymryd amser ac mae'n gofyn am drafodaethau manwl ac ymgynghori â chymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur, yn ogystal â phenaethiaid a chyrff llywodraethu. Mae angen gofalu hefyd nad yw'r protocol hwn yn cael ei ddehongli fel y Cyngor yn rhagfarnu canlyniad yr ymgynghoriad. Bydd hyn felly cynnwys proses hir ac ailadroddus fwy na thebyg o ymgynghori, ac efallai y bydd angen iddi redeg ochr yn ochr â'r ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol ar newidiadau arfaethedig.

Bydd angen cytundeb ffurfiol gan gyrff llywodraethu i'r protocol/gweithdrefnau staffio, yn cynnwys cyrff llywodraethu dros dro lle a phryd y caiff y rhain eu sefydlu. Os, fodd bynnag, y gall yr awdurdod lleol gynnig sicrwydd y byddant yn ceisio penodi llywodraethwyr o blith y rheiny mewn ysgolion presennol, yna mae'n fwy tebygol y bydd cyrff llywodraethu dros dro yn gwneud ymrwymiad i'r protocol staffio.





Yn hanesyddol, lle y bydd cyfuno yn digwydd, ymagwedd gyffredin fu cau'r ddwy ysgol ac agor un newydd. Mae hyn yn gosod yr holl staff yn gyfartal yn y gystadleuaeth am swyddi newydd. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r un canlyniad terfynol fel arfer drwy gau un ysgol a newid maint/ystod oed y llall. Ond er y gall hyn symleiddio'r cynigion statudol, gall greu problemau eraill o ran rheoli staff.

### Protocolau adleoli staff

Mae materion arferol a gwmpesir yn cynnwys:

- diogelu cyn belled ag y bo'n bosib fuddiannau staff presennol
- penodi penaethiaid i ysgolion newydd
- datblygu strwythurau staffio i ysgolion newydd
- sut bydd staff yn cael eu hysbysu am swyddi sydd ar gael mewn ysgolion newydd
- sut byddant yn cael eu hystyried ar gyfer y swyddi hyn (mae hyn yn aml yn golygu defnyddio un ffurflen gais ar gyfer swyddi yr hoffent gael eu hystyried ar eu cyfer yn yr ysgolion newydd, sy'n osgoi staff yn gorfod gwneud sawl cais)
- defnyddio trefniadau 'slotio i mewn' neu 'glustnodi' ar gyfer swyddi penodol yn hytrach na gweithdrefnau dethol ehangach
- y prosesau dethol (lle y bo'n bosib, dylai cynrychiolwyr y corff llywodraethu dros dro gynnwys llywodraethwyr o'r ysgolion sy'n cau)
- cyngor sydd ar gael gan swyddogion personél dynodedig
- cefnogaeth cwnsela
- costau diogelu cyflogau/cludiant ychwanegol
- osgoi achosion o golli gwaith gorfodol.





## Cyfeiriadau


Lloegr a Chymru. Statudau (2007). *Rheoliadau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20072316_en_1 [5 Mai, 2010].

Lloegr a Chymru. Statudau (2009). *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2009/mwa_20090001_en_1 [5 Mai, 2010].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999). *Rheoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) Addysg 1999*. Llundain: HMSO.

Pocklington, K. a Wallace, M. (2002). *Managing Complex Educational Change: Large Scale Reorganisation of Schools*. Llundain: RoutledgeFalmer.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Y Wlad sy'n Dysgu*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/learningcountry/learningcountry-e.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 23/02) Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038292/935231/schoolorganisationproposalse?lang=en [5 Mai 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Rheoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygiad) Addysg 2004*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20040908e.htm [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005). *Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fynd i'r Afael â Thlodi Plant*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/fairfuture/?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Adeiladu Cymunedau Dysgu Effeithiol Gyda'n Gilydd*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworken.pdf [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru* [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Arweiniad* (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif. 021/2009). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090918schoolorganisationen.pdf [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (d.d.). *y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru* [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/learningcountry/learningcountryvis-e.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].






## Darllen ychwanegol


Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2001). *Canllaw i Gynllunio Rheoli Asedau yng Nghymru* [arlein]. Ar gael: http://www.claw.gov.uk/index.php?id=84&L=0 [5 Mai, 2010].

Cyngor Ewrop (2007). *European Charter for Regional or Minority Languages* [arlein]. Ar gael: http://www.coe.int/t/dg4/education/minlang/ [5 Mai, 2010].

Lloegr a Chymru. Statudau (1993). *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Pennod 33. Llundain: HMSO.

Lloegr a Chymru. Statudau (1999). *Rheoliadau (Adeiladau Ysgolion) Addysg 1999*. Llundain: HMSO.

Lloegr a Chymru. Statudau (2000). *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*. Pennod 21. Llundain: Y Llyfrfa.

Lloegr a Chymru. Statudau (2001). *Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001*. Pennod 10. Llundain: Y Llyfrfa.

Lloegr a Chymru. Statudau (2002). *Deddf Addysg. Pennod 32*. Llundain: Y Llyfrfa

Lloegr a Chymru. Statudau (2004). *Deddf Plant 2004. Pennod 31*. Llundain: Y Llyfrfa

Lloegr a Chymru. Statudau (2005). *Deddf Addysg. Pennod 18*. Llundain: Y Llyfrfa

Lloegr a Chymru. Statudau (2006). *Deddf Elusennau 2006. Pennod 50.* Llundain: Y Llyfrfa

Lloegr a Chymru. Statudau (2006). *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Pennod 40*. Llundain: Y Llyfrfa.

Lloegr a Chymru. Statudau (2008). Deddf Addysg a Sgiliau 2008. Pennod 25. Llundain: Y Llyfrfa.

Estyn (2003) *Effaith Maint Dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd. Caerdydd: Estyn* [arlein]. Ar gael http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_24.pdf [5 Mai, 2010].

Estyn (2006). *Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru. Caerdydd: Estyn* [arlein]. Ar gael: http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_25_Small_Prim_Schools_Wales_2003_04.pdf [5 Mai, 2010].

Estyn (2007). *Gwerthuso Perfformiad Ysgolion Cyn ac Ar Ôl Symud i Mewn i Adeiladau Newydd neu Adeiladau a Adnewyddwyd yn Sylweddol. Caerdydd: Estyn* [arlein]. Ar gael: http://www.estyn.gov.uk/publications/School_Buildings_2007.pdf [5 Mai, 2010].

Estyn (2009). *Adroddiadau Arolygu ar Ysgolion* [arlein]. Ar gael: http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports.asp [5 Mai, 2010].








Fullan, M.G. (2001). *Leading in a Culture of Change*. Efrog Newydd, NY: Jossey-Bass.

Prydain Fawr. Statudau (1975). *Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975. Pennod 65*. Llundain: HMSO.

Prydain Fawr. Statudau (1995). *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Pennod 50*. Llundain: HMSO.

Prydain Fawr. Statudau (1996). *Deddf Addysg 1996. Pennod 56*. Llundain: HMSO.

Prydain Fawr. Statudau (1998). *Deddf Hawliau Dynol 1998. Pennod 42*. Llundain: HMSO.

Prydain Fawr. Statudau (1998). *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Pennod 31*. Llundain: HMSO.

Prydain Fawr. Statudau (2005). *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Pennod 13*. Llundain: y Llyfrfa.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1998). *Rheoliadau (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) Addysg 1998*. Llundain: HMSO.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999). *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Trefniadaeth Lleoedd mewn Ysgolion* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 9/99) [ar lein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/dcells/reports/policy/schools/supplyofschoolplaces/furtherinfo/organisationofschoolplacese.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999). *Rheoliadau Adeiladau Ysgolion 1999* (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 15/99). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru [arlein]. Ar gael: http://new.wales.gov.uk/ecolidocuments/WAG/WAG.04074.pdf [5 Mai, 2010].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999). *Rheoliadau (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) Addysg 1999*. Llundain: HMSO.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2001/wsi_20012678_mi.pdf [5 Mai, 2010].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004). *Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru 2004*. Llundain: Y Llyfrfa.

Swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol (1990). *Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn* [arlein]. Ar gael: http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion Anabl* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif. 15/2004). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2004/english/NAFWC15-04-e.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].







Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbe.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Arweiniad i gyd-fynd â Chynigion Trefniadaeth Ysgolion Rheoliadau Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru 2004* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 48/2004) [ar lein]. Ar gael: http://213.225.137.230/pubs/circulars/2004/english/NAFWC48-04-e.pdf;jsessionid=hT7pLhmQ22NvhG83Tj2rQLZjxGsGRDcg207WpL9WRrcZv2r37Ny2!-318064021?lang=en&ts=2 [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Arweiniad Llwybrau Dysgu 14-19* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif. 37/2004). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [ar lein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090302lpguidanceien.pdf [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Codau Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [ar lein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/codesofpractice/specialeducop/specialeducationneedse.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005). *Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygiad) 2005*. Llundain: Y Llyfrfa [ar lein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20052916e.htm [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Diffinio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg* (Dogfen Wybodaeth Rhif. 023/2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [ar lein]. Ar gael: http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/cym/BWGW20080317/REP04_02.HTM [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Cymru'n Un: Agenda Blaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Rhannu Cynllunio er Gwell Deilliannau: Arweiniad a Rheoliadau Cynllunio i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc* (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif. 31/2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: <http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2007/1948845/betteroutcomes.pdf?lang=en> [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/foundationphase/2274085/frameworkforchildrene.pdf?lang=en [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru* [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/081217stwfwstrategyandactionen.pdf [5 Mai, 2010].





Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Cyflwyno Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [arlein]. Ar gael: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100301transformationpolicyen.pdf [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2009/mwa_20090001_en_1 [5 Mai, 2010].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Rheoliadau (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygiad) 2009*. Llundain: Y Llyfrfa [arlein]. Ar gael: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20090828_en_1 [5 Mai, 2010].





# Atodiad 1

## Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer ad-drefnu ysgolion

Roedd *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, d.d.) yn rhagweld, lle yr oedd dirywiad mawr mewn niferoedd disgyblion, byddai ALl yn datblygu cynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf fyddai'n darparu ysgolion cynaliadwy, gyda ffocws ar y gymuned i safon ysgolion yr 21ain ganrif.

Mae'n ofynnol ar ALlau hefyd i:

- gwrdd â mynegiadau dewisiadau rhieni am ddarpariaeth oed ysgol gorfodol cyhyd â bod hynny'n gydnaws â darparu addysg yn gost effeithiol
- ystyried ei Gynllun Iaith Gymraeg a strategaethau a chynlluniau iaith Gymraeg Cymru gyfan perthnasol wrth ddatblygu cynigion i gau, agor a newid ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn ei ardal
- cyn belled ag y bo'n ymarferol, anelu at gwrdd â galw rhieni am addysgu cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Yn wir, dylai mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg fod yn rhan o'r broses cynllunio ysgolion, yn enwedig mewn ALlau lle mae llai nag 20 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a dylai cynigion gael eu hysbysu gan fesurau galw yn seiliedig ar arolygon lleol neu ffynonellau lleol eraill.

Mewn rhai achosion, bydd ALlau yn gallu mynd i'r afael â'r angen a ragwelir am leoedd/ysgolion drwy addasu niferoedd derbyn ysgolion neu dalgylchoedd, ochr yn ochr â naill ai ychwanegu/tynnu adeiladau neu ailddefnyddio gallu dros ben at ddibenion eraill. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gallai fod yn angenrheidiol ymgymryd â gweithdrefnau statudol, sy'n cynnwys ymgynghori a chyhoeddi cynigion statudol, ar newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Mae'r prif bwerau i awdurdodau ymgymryd â gweithdrefnau statudol a gwneud newidiadau sylweddol i ysgolion yn deillio o:

- *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998* (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Deddf 1998)
- *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000* (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Deddf 2000)
- *Rheoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) Addysg 1999* (fel y diwygiwyd)
- *Rheoliadau (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) Addysg 1999*
- *Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001* (fel y diwygiwyd)
- *Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004* (fel y diwygiwyd).

Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol bwerau hefyd i wneud newidiadau penodol i'w hysgolion eu hunain.





Mae'r ddeddfwriaeth hon a'r rheoliadau yn pennu pa rai o'r newidiadau arfaethedig i ysgolion y mae'n rhaid eu cyhoeddi ac yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori, cyhoeddi, gwneud gwrthwynebiadau a phenderfynu ar gynigion o'r fath. Yn benodol, mae *Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif. 021/2009* yn darparu'r fframwaith y dylid datblygu cynigion ALl ar gyfer trefniadaeth ysgolion oddi mewn iddo, o ystyried y bydd ALlau hefyd yn ystyried eu gwybodaeth leol a natur amrywiol eu cymunedau wrth ddatblygu eu cynigion. Mae'r arweiniad yn y Cylchlythyr hwn yn gymwys i ysgolion cymunedol, gwirfoddol, sylfaen ac arbennig, ac mae'n nodi:

- y cyd-destun polisi a'r egwyddorion, polisïau a materion cyffredinol sy'n dylanwadu ar adolygu'r ddarpariaeth o leoedd mewn ysgolion
- y ffactorau y mae angen eu hystyried gan y rheiny sy'n cyflwyno cynigion i ailffurfweddu ysgolion
- y meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymhwyso wrth ddod i benderfyniadau ar gynigion sy'n dod atynt i'w penderfynu.

Disgwylir hefyd i ALlau asesu'r cyfraniad y gallai cynigion ei wneud i *Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)* 2009, ac i baratoi cynigion yng ngoleuni'r polisi Trawsnewid, *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, ac unrhyw bolisïau olynol iddynt.

Er nad oes gan ALlau bwerau o dan Ddeddf 1998 i wneud cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu bwriad i ddirprwyo eu pwerau eu hunain i newid darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion gwirfoddoli a gynorthwyir, sy'n deillio o Ddeddf 2000, i ALlau pe byddai'r angen yn codi (i'w benderfynu ar sail achosion unigol).

Mae gofyniad hefyd ym *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)* 2009 bod yn rhaid i'r rheiny sy'n gyfrifol am ffurfio cwricwla lleol hybu mynediad i ac argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-14, a bydd angen i ALlau ystyried a fyddai mwy o gydweithio rhwng darparwyr cyfrwng Cymraeg ar draws ffiniau siroedd yn hybu cyfleoedd dysgu ar gyfer y grŵp 14–19.

Mae'n rhaid i ALlau hefyd:

- dalu sylw priodol i ddarpariaethau *Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001*, sy'n rhwystro gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl yn eu mynediad i addysg. Mae'r dyletswyddau yn darparu diogelwch i ddisgyblion anabl drwy atal gwahaniaethu yn eu herbyn yn yr ysgol ar sail anabledd
- dalu sylw priodol i gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif. 15/2004: Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion i Blant Anabl, sy'n cynnwys arweiniad ar y dyletswyddau a roddir i ALlau o ganlyniad i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2002.
- ystyried y ddyletswydd gyffredinol (a nodwyd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005) ar awdurdodau cyhoeddus ac ysgolion i hybu cyfle cyfartal yn weithgar rhwng unigolion ag anableddau a phobl eraill ac yn benodol y pwyslais a roddir ar hawliau gwrth-wahaniaethu i bobl anabl yn nhermau triniaeth lai ffafriol neu fethu â gwneud addasiad rhesymol.





At hynny, mae'n ofynnol ar ALlau i hybu cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail hil, anabledd neu ryw, ac i ymgymryd ag asesiadau effaith i sicrhau cyn belled ag y bo'n bosib fod unrhyw ganlyniadau negyddol o weithrediadau yn cael eu dileu neu eu lleiafu ac y caiff cyfleoedd i hybu cydraddoldeb eu mwyafu.

Cyflwynwyd Mesur Cydraddoldeb yn Senedd y DU ym mis Ebrill 2009 fydd, os daw yn ddeddf, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y gyfraith cydraddoldeb newydd yn cytgordio ac yn cryfhau cyfraith wahaniaethu'r DU. Bydd angen i ALlau dalu sylw priodol i unrhyw newidiadau i gyfraith gydraddoldeb fydd yn deillio o hynny, ac, wrth ddarparu lleoedd mewn ysgolion, dylai ALlau anelu at hybu cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.

Disgwylir hefyd i ALlau geisio cymhwyso egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998 ac yn benodol talu sylw priodol i Erthygl 14 ar wahardd gwahaniaethu yn Hawliau Confensiwn ac Erthygl 2 Protocol 1, ar yr hawl i fynediad i addysg. At hynny, dylent dalu sylw priodol i egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac i'r paragraffau a gadarnhawyd yn ymdrin ag addysg yn Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol.

Yn olaf, mae *Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975* (yn bennaf yn adrannau 22 a 23) yn golygu bod angen i ALlau:

- sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth un-rhyw ar gael mewn ffordd nad yw'n arwain at wahaniaethu anghyfreithlon
- talu sylw priodol i gynllunio lleol synhwyrol ac i'r fframwaith derbyn o dan Ddeddf 1998, yn hytrach na sicrhau niferoedd union gyfartal o leoedd i fechgyn a merched.

Mae'r holl gynigion statudol i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn dod i Weinidogion Cymru i'w pennu lle mae cynigion o'r fath yn denu gwrthwynebiadau neu lle mae Gweinidogion Cymru yn galw'r cynigion i mewn o dan baragraff 8(1)(a) Atodlen 6 Deddf 1998. Mae angen ar rai mathau o gynigion gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn awtomatig, waeth a fu gwrthwynebiadau ai peidio. Bernir pob achos ar ei rinweddau, gan ystyried y ffactorau a nodwyd yn Atodiad 2. Ym mhob achos mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad ar sail cyngor gan swyddogion.

Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol hefyd am gyhoeddi arweiniad ar y gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi, penderfynu a gweithredu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i ysgolion, yn cynnwys newidiadau i ddarpariaeth ôl-16.

Mae'r arweiniad gweithdrefnol wedi'i nodi ar hyn o bryd yng *Nghylchlythyr 9/99 'Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Trefniadaeth Lleoedd mewn Ysgolion'* Cynulliad Cenedlaethol Cymru a *Chylchlythyr 48/2004: Arweiniad i gyd-fynd â'r cynigion trefniadaeth ysgolion*, gan y Cyngor Addysg Cenedlaethol, a *Rheoliadau Hyfforddiant i Gymru 2004*. Mae disgwyl i'r dogfennau arweiniad gweithdrefnol hyn gael eu disodli yn y dyfodol agos.

Disgwylir hefyd y bydd gan ALlau Gynlluniau Rheoli Asedau, yn cynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaeth Addysg sy'n nodi adeiladau ysgolion a ddelir neu a gynhelir gan ALl. Mae *Rheoliadau (Adeiladau Ysgolion) Addysg 1999* yn nodi'r safonau ar gyfer adeiladau ysgolion, yn cynnwys isafswm ardaloedd caeau chwarae gemau tîm y mae'n rhaid i ysgolion gael mynediad





iddynt. Er y dylai cynigion statudol sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cwrdd, mae adran 543 *Deddf Addysg 1996* (fel y diwygiwyd gan baragraff 159 Atodlen 30 Deddf 1998) yn grymuso Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn amgylchiadau penodol, i lacio'r safonau rhagnodedig. Mae *Cylchlythyr 15/99* y Swyddfa Gymreig yn darparu arweiniad pellach ar hyn. At hynny, bydd angen i ALlau gyfeirio at Reoliadau Adeiladau perthnasol a Bwletinau Adeiladu cysylltiedig.





# Atodiad 2

## Cylch gwaith i Bwrdd Prosiect

Dylai cylch gorchwyl y Bwrdd gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor. Dylai'r cylch gorchwyl hwn nodi aelodaeth y Bwrdd, ei fecanweithiau adrodd, cysylltiadau â chyrff eraill (er enghraifft, grwpiau rhanddeiliaid) a pha mor aml y dylai'r Bwrdd gwrdd (yn fisol o leiaf). Dylent hefyd gwmpasu cyfrifoldebau'r Bwrdd, fel:

- nodi amcanion allweddol y prosiect
- datblygu ac adolygu'n rheolaidd y Cynllun Prosiect er mwyn sicrhau bod yr holl gynlluniau ffrydiau gwaith yn parhau wedi'u halinio â gweithredu terfynol y prosiect (dylai'r cynllun prosiect manwl nodi'r cerrig milltir allweddol a'r cyflawniadau i'w cyflawni, a ffurfio sail adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Prosiect ar gynnydd y prosiect)
- ystyried adroddiad rheolaidd Cyfarwyddwr y Prosiect i Fwrdd y Prosiect (dylai hyn gynnwys gwariant yn erbyn cyllideb rheoli'r prosiect, y dylai gydymffurfio â threfniadau corfforaethol yr awdurdod ar gyfer rheoli cyllidebau ac adrodd)
- cadarnhau penderfyniadau Tîm y Prosiect ar gamau allweddol
- rheoli'r rhyngwyneb gydag aelodau
- gwneud argymhellion i'r Cyngor ar benderfyniadau allweddol
- gosod y blaenoriaethau a'r meini prawf ar gyfer penderfynu cwmpas unrhyw fuddsoddiad mewn gweithfeydd adeiladu a gwariant cyffredinol ar brosiectau ysgolion unigol
- monitro risgiau a gweithrediadau allweddol i'w lliniaru fel rhan o strategaeth rheoli risgiau cyffredinol (rhaid i'r gofrestr risgiau gael ei diweddaru'n rheolaidd a rhaid cymeradwyo diwygiadau gan y Bwrdd) – bydd y gofrestr risgiau yn nodi pwy sy'n gyfrifol am reoli a lliniaru risgiau, a dylai'r Bwrdd Prosiect dderbyn adroddiadau diweddaru misol ar risgiau allweddol
- cymeradwyo'r cynllun cyfathrebu/strategaeth ymgynghori.

Dylai'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Prosiect nodi'n glir y lefelau dirprwyo sydd yn eu lle er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cynyddu yn effeithiol ac yn effeithlon.





# Atodiad 3

## Enghreifftiau o risgiau a lliniaru

Mae Tabl A3.1 yn crynhoi rhai o'r materion a'r problemau allweddol a wynebir gan ALlau yn ymgymryd ag ad-drefnu ysgolion ac mae'n darparu enghreifftiau o ddatrysiadau y cafwyd eu bod yn gweithio neu eu bod o leiaf yn lleiafu'r effaith negyddol.

### Tabl A3.1 Enghreifftiau o risgiau a lliniaru

| Risgiau Posib | Lliniaru |
|---|---|
| Diffyg cefnogaeth wleidyddol | • Sicrhau bod ymrwymiad gan yr arweinyddiaeth wleidyddol yn cael ei roi o'r dechrau, gyda chytundeb ar gyfer y broses a'r cynllun gweithredu, wedi'i benderfynu o ddewis gan y Cyngor.<br>• Hysbysu a chynnwys aelodau etholedig ar bob cam o'r broses, yn cynnwys yr ymgynghoriad.<br>• Cynnwys aelodau'r gwrthbleidiau ac Aelodau Cynulliad/ASau lleol ar gam cynnar. |
| Diffyg cefnogaeth gan bartneriaid allweddol | • Ar y dechrau, cwrdd â phartneriaid allweddol fel yr esgobaethau i drafod y cynlluniau a'u cynnwys drwy gydol y broses.<br>• Cynnig mynychu cyfarfodydd gyda sefydliadau allweddol eraill, fel cynghorau dosbarth, i egluro'r cynigion, a cheisio eu cefnogaeth wrth ymgymryd â'r adolygiad.<br>• Peidio ag anghofio cael cyfarfodydd gydag Adrannau Cynllunio ar gam cynnar. |
| Diffyg arweinyddiaeth ar lefel awdurdod | • Sicrhau bod gan brif swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdod ran proffil uchel yn y broses a'u bod yn darparu arweinyddiaeth effeithiol.<br>• Cynnwys penaethiaid yn gynnar, efallai drwy gyfarfodydd cyfrinachol cychwynnol am yr hyn sy'n cael ei gynnig. |
| Diffyg trefniadau/gallu rheoli a llywodraethu cadarn | • Cael system glir a chytunedig am reoli a llywodraethu'r prosiect.<br>• Cyflogi staff ychwanegol i ymgymryd â thasgau penodol a darparu sgiliau arbenigol neu ôl-lenwi staff presennol a all ganolbwyntio ar yr ad-drefnu ysgolion.<br>• Sefydlu grwpiau o swyddogion i reoli gwahanol agweddau ar y prosiect.<br>• Cynnwys penaethiaid yn y grwpiau hynny lle y bo'n bosib ac yn briodol.<br>• Cynnwys ac ymgynghori'n llawn â'r undebau o'r dechrau.<br>• Meddwl am yr holl risgiau posib a allai amharu ar y broses a gweithio allan sut i liniaru'r rhain. |





## Tabl A3.1 Enghreifftiau o risgiau a lliniaru

| Risgiau Posib | Lliniaru |
|---|---|
| Dim cytundeb ar yr egwyddorion sylfaenol a'r rhesymeg dros newid | • Gosod egwyddorion ar gyfer tanategu'r adolygiad ysgolion a'r rhesymeg dros newid yn y dechrau, wedi'i ddilyn gan ymgynghori eang.<br>• Cynnwys gwella safonau a phrofiadau addysgol plant o fewn yr egwyddorion/rhesymeg hyn. |
| Diffyg eglurder ynghylch deilliannau dymunol yr ad-drefnu | • Nodi'r deilliannau a nodwyd yn glir o'r ad-drefnu, a chysylltu'r rhain i'r ymgynghoriad am egwyddorion tanategol. |
| Gwybodaeth annigonol | • Gweithio allan yr holl wybodaeth y gallai pobl ddymuno ei chael ymhell ymlaen llaw.<br>• Defnyddio gwybodaeth aelodau lleol i hysbysu hyn.<br>• Cael 'grwpiau ffocws' i helpu gyda phennu'r wybodaeth y gallai pobl ddymuno ei chael. |
| Cyfathrebu gwael | • Defnyddio'r holl ddulliau cyfathrebu: rhyngrwyd/gwefan/ebost/newyddlenni/cyfryngau.<br>• Ystyried 'llafar gwlad'.<br>• Ei wneud yn hawdd ei ddefnyddio ac osgoi jargon.<br>• Bod yn syml, peidio â cheisio cuddio pethau neu roi'r argraff fod pethau yn cael eu cuddio. Wynebu materion yn onest ac yn agored.<br>• Defnyddio dadleuon cytbwys, gan nodi manteision ac anfanteision newidiadau arfaethedig. |
| Camddealltwriaethau am y broses | • Disgrifio proses yr adolygiad, ymgynghoriad a gweithredu, yn cynnwys y prosesau gwleidyddol a gwneud penderfyniadau.<br>• Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl yn ystod y broses, yr hyn a gyflawnwyd eisoes, unrhyw benderfyniadau a wnaed a pham, pryd y bydd eraill yn cael eu gwneud, gyda'r camau nesaf ac amserlenni wedi'u nodi'n glir. |
| Grwpiau â diddordeb yn tra-arglwyddiaethu yn yr ymgynghoriad | • Yn ogystal â chyfarfodydd agored, cynnig y cyfle i bobl fynegi eu barn neu ofyn cwestiynau gan ddefnyddio ebost/y wefan, drwy gynnal 'syrjeris' mewn gwahanol leoliadau lle y gall bobl neu staff gael trafodaethau unigol gyda swyddogion ac aelodau, a gwneud yn siwr bod y rhain yn cael eu cynnal ar wahanol adegau i hwyluso ymrwymiadau eraill pobl.<br>• Bod yn glir am gwmpas yr 'ymgynghoriad' ac osgoi rhoi'r argraff bod 'penderfyniad poblogaidd' yn cael ei geisio.<br>• Peidio â defnyddio termau fel 'refferendwm' neu 'bleidlais' mewn cysylltiad ag ymgynghoriadau. |





### Tabl A3.1 Enghreifftiau o risgiau a lliniaru

| Risgiau Posib | Lliniaru |
|---|---|
| Materion staffio:<br>- effaith ar recriwtio a chadw<br>- moral staff isel a'r canlyniadau i safonau<br>- ad-drefnu yn effeithio ar waith dydd i ddydd staff ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol | • Gweithio'n agos gydag undebau ar bennu'r polisi adleoli ac ar gefnogaeth i staff ysgolion.<br>• Cytuno'r polisi adleoli cyn gynted â phosib.<br>• Dyrannu swyddogion i ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chwnsela i staff ysgolion.<br>• Datblygu cyfleoedd DPP a mentrau effeithiolrwydd ysgolion fydd yn cefnogi recriwtio a chefnogi, yn ogystal â sicrhau ffocws parhaus ar wella safonau.<br>• Lle mae cyfuniadau ysgolion dan sylw, datblygu, annog a/neu gefnogi hyfforddiant a gweithgareddau ar y cyd rhwng yr ysgolion. |
| CC gwael yn y cyfryngau | • Gwahodd y cyfryngau i mewn ar y dechrau i egluro'r hyn sy'n digwydd.<br>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses. Cydnabod efallai na fydd grŵp gwrthwynebus wedi'i drefnu yn dilyn y rheolau.<br>• Rhagweld gwyro a chamwybodaeth negyddol. Gallai hyn fod yn fwriadol neu'n anfwriadol ond mae'r effaith yr un fath. Mae'n haws sefydlu gwybodaeth gywir o'r cychwyn na cheisio cywiro straeon niweidiol ar ôl iddynt ymddangos. |
| Materion cynllunio/safle | • Nodi safleoedd sydd eu hangen ar gyfer ysgolion newydd/ysgolion a adleolir, a sicrhau bod safleoedd yn ddigon mawr pan cynigir ehangu.<br>• Nodi unrhyw faterion cynllunio a'u datrys cyn gynted â phosib, gan gael caniatâd cynllunio amlinellol mor gynnar â phosib.<br>• Lle mae materion trosglwyddo perchnogaeth tir, nodi unrhyw faterion perchnogaeth cyfreithiol a'u datrys cyn gynted â phosib, yn enwedig pan mae perchnogion eraill/cydberchnogion ar y safle neu mae ganddynt fynediad i'r safle, er enghraifft, ysgolion eraill, cyfleusterau chwaraeon neu iechyd. |
| Materion ariannu | • Sicrhau bod arian cyfalaf wedi'i ddatrys cyn gweithredu cynigion<br>• Lle mae arian yn dibynnu ar werthu tir, sicrhau bod y rhain yn cael eu cynyddu'n brydlon neu geisio cytundeb y cyngor i ddarparu'r arian cyfalaf cyn derbyn arian am werthu tir. |





# Atodiad 4

## Siart lif dangosol ar gyfer cynigion statudol

### Ffigur A4.1  Cynigion statudol: proses cam wrth gam

***Cam 1***

Adolygiad o leoedd mewn ysgolion (lle y mae'n briodol yn achos cynigion AALI). Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ymgynghori. *(Gallai'r cam hwn gymryd tri i naw mis.)*

***Cam 2***

AALI/Hyrwyddwyr yn cymeradwyo ymgynghori ar opsiynau ar gyfer ardal X (nodwyd yr opsiynau dymunol). *(Gallai'r cam hwn gymryd mis neu ddau yn dibynnu ar bwy sy'n gwneud y penderfyniad.)*

***Cam 3***

Darperir dogfen grynodol i bartïon perthnasol yn amlinellu dau opsiwn, yn nodi'r opsiwn dymunol ac yn eu gwahodd i gyfarfod, gydag opsiwn i ymateb yn ysgrifenedig (er enghraifft, o fewn chwe wythnos).

***Cam 4***

Cynhelir cyfarfod. Dogfen grynodol ar gael yn y cyfarfod. Cyfnewid barn. Cyhoeddir gwahoddiad i gyflwyno barn ysgrifenedig (er enghraifft, o fewn pedair wythnos). *(Gallai Camau 3 a 4 gymryd cyfanswm o chwech i wyth wythnos.)*

***Cam 5***

AALI/Hyrwyddwyr yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad yn dilyn y dyddiad cau. Penderfynir ar yr opsiwn dymunol yng ngoleuni'r farn a fynegwyd. Cymerir y penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion. Paratoir gwybodaeth Atodlen 4 i'w chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru. *(Gallai'r cam hwn gymryd pedair wythnos, yn dibynnu ar y brys.)*

Os bydd opsiwn newydd yn ymddangos yn ystod yr ymgynghoriad, y mae'r AALI/Hyrwyddwyr yn dymuno ei ystyried, yna ailadroddir Camau 2-5, ond gallai'r amserlen fod yn fyrrach.

Cyhoeddi cynigion gan roi cyfle ar gyfer gwrthwynebiadau statudol. Cyflwyno'r hysbysiad a gyhoeddwyd a gwybodaeth Atodlen 4 i Gynulliad Cymru *(Dau fis)*





Os na derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, ac nid yw'r cynnig yn cael ei alw i mewn am benderfyniad, bydd yr AALI/Hyrwyddwyr yn penderfynu ar y cynigion. *(Dau fis)*

Yn achos gwrthwynebiadau i gynigion yr ALI, bydd yr ALI yn coladu gwrthwynebiadau, yn ymateb ac yn cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i benderfynu. Ar gyfer cynigion eraill, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn coladu gwrthwynebiadau ac yn gofyn am sylwadau hyrwyddwyr. *(Un mis)*

Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y cynigion. *(Tri mis)*





# Atodiad 5

## Cynllunio lleoedd disgyblion

Er bod cynllunio lleoedd disgyblion yn debycach i gelfyddyd nac i wyddor, bydd angen gwneud y rhesymeg a'r tybiaethau sy'n tanategu rhagamcaniad yr awdurdod am yr angen am leoedd mewn ysgolion yn amlwg ac yn glir yn ystod ymgynghoriad ar ad-drefnu ysgolion.

Bydd y data a ddefnyddir i bennu niferoedd ragamcanedig o ddisgyblion a'r lleoedd sydd eu hangen mewn ysgolion yn benodol yn agored i'w herio. Mae felly yn ddefnyddiol gwirio data disgyblion yn erbyn yr wybodaeth leol a ddelir gan ddisgyblion (penaethiaid a chyrff llywodraethu) a gyda chyrff allweddol eraill, fel cynllunwyr awdurdodau cyfagos, awdurdodau iechyd, a darparwyr cyn-ysgol.

Bydd y Cyngor hefyd yn dal gwahanol setiau data sy'n bwysig ar gyfer hysbysu rhagamcanion a chynigion ar gyfer lleoedd mewn ysgolion:

- ystadegau poblogaeth
- niferoedd derbyn a dewisiadau rhieni
- data cyfrifiad ysgolion blynyddol a arweinir gan ddisgyblion (PLASC) a chyfraddau goroesi carfanau
- perfformiad ysgolion
- newidiadau arfaethedig i faint/niferoedd derbyn/dalgylchoedd/lleoliad/categori ysgolion
- gweithfeydd adeiladu yn effeithio ar allu ysgolion
- datblygiadau tai.

### Setiau data i'w hystyried

Gall y rhain gynnwys:

- cyfraddau geni
- data cyfredol a hanesyddol a ddefnyddir ar niferoedd disgyblion ar gofrestri ysgolion (wedi'u gosod mewn grwpiau blwyddyn), ac felly'n dangos cyfraddau goroesi carfanau
- niferoedd derbyn a gallu ysgolion
- ystadegau'r flwyddyn gyfredol a blaenorol ar ddewisiadau rhieni
- nifer/cyfran y dewisiadau cyntaf, ail ddewisiadau a thrydydd dewisiadau a roddir ym mhob ysgol, gan amlygu ffigurau gordanysgrifio a thandanysgrifio ar gyfer ysgolion
- datblygiadau tai
- caniatâd cynllunio
- mentrau adfywio yn yr ardal





- cyrchfannau a niferoedd disgyblion yn mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch/awdurdod
- awdurdodau cartref a niferoedd plant sy'n cael eu tynnu i mewn i ysgolion yr awdurdod o'r tu allan
- symudedd disgyblion
- safonau a phoblogrwydd ysgolion ac unrhyw newidiadau diweddar/a gynllunnir i ysgolion
- lleoedd ôl-16 a'r niferoedd presennol/rhagamcanedig ar y gofrestr
- lefel a math y lleoedd AAA rhagamcanedig mewn darpariaeth ag adnoddau arbennig/ysgolion arbennig/Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) a'r niferoedd rhagamcanedig ar y gofrestr.

(Cydnabyddir y gallai rhai ALlau ddefnyddio ffynonellau data gwahanol/ychwanegol na'r rheiny a nodir uchod, er enghraifft, mae rhai yn defnyddio cofrestri bedyddio.)

Mae angen dadansoddi'r data hwn yn ôl-syllol er mwyn nodi tueddiadau, ac yna ei ddefnyddio i ragamcanu ymlaen am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae angen i gynllunio lleoedd disgyblion ystyried ffactorau eraill sy'n cymhlethu'r sefyllfa, fel y nodwyd isod.

### Ffactorau eraill yn effeithio ar gynllunio lleoedd disgyblion

Gall y rhain gynnwys:

- niferoedd anragweladwy o ffoaduriaid, ceiswyr lloches a theuluoedd o wledydd Dwyrain yr Undeb Ewropeaidd
- ysgolion newydd yn cael eu hagor – bydd hyn yn effeithio ar boblogrwydd a lleoedd a ddymunir mewn ysgolion eraill
- bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddefnyddio gan ALlau cyfagos i gynyddu neu leihau lleoedd/ysgolion yn effeithio ar y galw am leoedd
- newidiadau a wneir i fathau/categorïau ysgolion er mwyn gwella'r dewis (er enghraifft, lle y newidir cydbwysedd ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion gyda chymeriad crefyddol dynodedig, bydd yn effeithio ar boblogrwydd a'r lleoedd rhagamcanedig fydd eu hangen mewn gwahanol ysgolion)
- effaith ailadeiladu/ailfodelu ysgolion ar eu poblogrwydd.

Mae angen nodi'r holl ffactorau uchod a dod i farn ar sut y gallent effeithio ar yr angen i gynyddu/lleihau lleoedd neu nifer yr ysgolion. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth leol a dehongli data yn ddeallus. Mae, fodd bynnag, yn bosib dilyn proses sy'n sicrhau bod yr holl ffactorau yn cael eu hystyried, a chyn belled ag y bo'n bosib, bod rhagamcanion yn seiliedig ar ddata a dadansoddi cadarn, ochr yn ochr â gwybodaeth leol.





***Proses ar gyfer rhagamcanu niferoedd cynradd a'r lleoedd fydd eu hangen***

Mae llawer o ALlau yn defnyddio ystadegau'r awdurdod iechyd ar enedigaethau byw/imiwneiddio, ac yn defnyddio data o flynyddoedd blaenorol i bennu niferoedd plant mewn dosbarthiadau derbyn o ganlyniad i niferoedd y genedigaethau/imiwneiddiadau a gofnodwyd gan yr awdurdod iechyd. Mae rhai ALlau yn defnyddio data sydd ganddynt ar leoedd y maent yn eu hariannu mewn darpariaeth cyn-ysgol – mae hyn hawsaf pan fydd gan ALl nifer fawr o'i leoedd meithrin ei hun (ysgolion/unedau) – ac yn cyfrifo'r trosglwyddo posib o gyn-ysgolion/meithrinfeydd i ddosbarthiadau derbyn eu hysgolion, gan ddefnyddio data hanesyddol ar gyfraddau trosglwyddo.

Yna mae angen i'r awdurdod lleol:

- ragamcanu'r lleoedd sydd eu hangen ym mhob ysgol gynradd am y tair blynedd nesaf o leiaf
- sicrhau bod rhagamcanion yn ystyried y Niferoedd ar y Gofrestr (NOR) presennol a lleoedd mewn ysgolion, niferoedd derbyn ysgolion, gallu a lleoedd dros ben dilynol neu orboblogi mewn ysgolion
- ystyried unrhyw gynlluniau tai ac adfywio ar raddfa fach neu fawr (yn ychwanegol at y rheiny mewn blynyddoedd blaenorol) – mae gan ran fwyaf yr ALlau ffactorau niferoedd plant y maent yn eu defnyddio yn ôl math y tai, er enghraifft a ydynt yn fflatiau un ystafell wely, tai cymdeithasol, tai tair ystafell wely ar eu pennau'u hunain, ac ati.
- defnyddio gwybodaeth leol am boblogrwydd ysgolion, wedi'u cynorthwyo gan ddadansoddiad data a ddarperir gan dîm derbyn yr ALl ar ddewisiadau rhieni ar gyfer ysgolion
- ystyried newidiadau i ysgolion yr ALl o ganlyniad i ad-drefniadau, unrhyw adleoliadau a/neu addasiadau i dalgylchoedd a niferoedd derbyn, ac unrhyw weithfeydd cyfalaf diweddar neu a gynlluniwyd neu lety dros dro a ddarperir ar safleoedd ysgolion, y gallant oll effeithio ar y lleoedd sydd ar gael a phoblogrwydd ysgol
- ystyried newidiadau i ysgolion ALlau cyfagos, yn cynnwys ysgolion newydd a chau ysgolion, a allai effeithio ar ddewisiadau rhieni a'r angen am leoedd.

***Proses ar gyfer rhagamcanu niferoedd uwchradd a'r lleoedd fydd eu hangen***

Mae'r broses o ragamcanu lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn debyg iawn i hynny ar gyfer ysgolion cynradd. Mae rhywfaint yn haws gan fod saith grŵp o blant eisoes yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo, ac mae data hanesyddol ar gyfraddau goroesi carfanau o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae gan dîm derbyn yr ALl wybodaeth hefyd ar ddewisiadau ysgolion uwchradd rhieni. Gall hyn helpu i ganfod unrhyw newidiadau sylweddol i'r patrwm hanesyddol o ddewisiadau rhieni a throsglwyddiadau dilynol o ysgolion cynradd i rai uwchradd.

Ond er bod patrymau o ddewisiadau rhieni fel arfer yn ganllaw da i batrymau





galw yn y dyfodol, gall y rhain newid mewn ymateb i amgylchiadau allanol, fel:

- gall newidiadau i ansawdd tybiedig ysgolion penodol newid patrymau galw a llif ar draws ffiniau ALlau.
- gall newidiadau yn yr economi ehangach ddylanwadu at batrymau mudo
- gallai mwy o ansicrwydd yn economi'r byd achosi gwyro yn y galw cyffredinol am leoedd.

Mae'r broses o ragamcanu'r lleoedd mewn ysgolion uwchradd felly yn gofyn am gymryd y camau canlynol:

- rhagamcanu nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd, yn seiliedig ar gyfraddau goroesi carfanau blaenorol (neu ddefnyddio ffordd debyg seiliedig ar ddata o ragamcanu'r niferoedd sy'n dod i'r uwchradd)
- addasu rhifau yng ngoleuni cynlluniau tai ac adfywio ar raddfa fach neu fawr (yn ychwanegol at y rheiny mewn blynyddoedd blaenorol)
- addasu'r rhifau rhagamcanedig hyn yng noleuni newidiadau a allant effeithio ar y lleoedd sydd ar gael a phoblogrwydd ysgol newydd, er enghraifft, ad-drefniadau, adleoliadau, addasiadau i dalgylchoedd, niferoedd derbyn a gallu, ac unrhyw weithfeydd cyfalaf diweddar neu a gynlluniwyd neu lety dros dro a ddarperir ar safleoedd ysgolion
- ystyried newidiadau i ysgolion, creu ysgolion newydd a chau ysgolion mewn ALlau cyfagos, a allai effeithio ar ddewisiadau rhieni a'r angen am leoedd.

Gall newidiadau mewn dewisiadau rhieni am ysgolion ar draws ffiniau gydag awdurdodau lleol cyfagos (OLAs) fod yn arwyddocaol weithiau. Mae'n rhaid amcangyfrif newidiadau o'r fath yn ofalus – mae proses ar gyfer gwneud hyn wedi'i nodi yn Ffigur A5.1.

**Ffigur A5.1 Camau ar gyfer rhagamcanu newidiadau yn newisiadau rhieni ar draws ffiniau awdurdod lleol**

***Cam 1***

Nodi niferoedd disgyblion awdurdodau lleol eraill (OLA) sy'n mynychu pob ysgol ALl.

***Cam 2***

Nodi niferoedd disgyblion preswyl yn mynychu ysgolion OLAs a'r sector annibynnol.

***Cam 3***

Nodi newidiadau (diweddar neu arfaethedig) i ysgolion yr ALl ac OLAs, er enghraifft:

- cau, cyfuno, ysgolion newydd, newidiadau mewn maint neu leoliad
- gwelliannau diweddar neu ddisgwyliedig mewn safonau/poblogrwydd ysgolion





- newidiadau arfaethedig i gategorïau ysgolion uwchradd (statws enwadol, cyfrwng Cymraeg ac ati.)
- buddsoddiad cyfalaf diweddar neu arfaethedig.

***Cam 4***

Pennu unrhyw ostyngiad posib mewn disgyblion OLAs yn mynychu ysgolion yr ALI yng ngoleuni newidiadau a ragamcanir yn y garfan 11–16, ac unrhyw newidiadau a nodwyd yng ngham 3, gan ystyried y pellter y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio i ysgol gyfartal yn eu ALI eu hunain, a safonau cymharol yn yr ysgolion hyn. Addasu'r niferoedd rhagamcanedig ar gyfer pob ysgol yr ALI yn unol â hynny. Argymhellir bod trafodaethau yn digwydd gydag OLAs er mwyn cymharu a gobeithio cytuno ar newidiadau posib.

***Cam 5***

Pennu unrhyw ostyngiad posib mewn disgyblion OLAs yn mynychu ysgolion yr ALI yng ngoleuni newidiadau a ragamcanir yn y garfan 11–16, ac unrhyw newidiadau a nodwyd yng ngham 3, gan ystyried y pellter y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio i ysgol gyfartal yn eu ALI eu hunain, a safonau cymharol yn yr ysgolion hyn. Bydd hyn yn rhoi amcangyfrif o'r newidiadau posib yn niferoedd y plant preswyl sy'n dymuno cael lle yn ysgolion yr ALI, gan nodi, lle y bo'n bosib, sut y gallai hyn effeithio ar leoedd gofynnol mewn ysgolion gyda chymeriad crefyddol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Addasu niferoedd a ragamcanir ar gyfer pob ysgol ALI yn unol â hynny. Argymhellir bod trafodaethau yn digwydd gydag OLAs er mwyn cymharu a gobeithio cytuno ar newidiadau posib.

***Cam 6***

Gallai'r uchod nodi lleoedd dros ben neu angen am leoedd ychwanegol. Yna mae angen i'r ALI bennu a yw'n ddichonol neu'n ymarferol i wneud newidiadau i nifer y lleoedd presennol/arfaethedig yn eu hysgolion, neu yn wir a yw'n dangos angen i newid categorïau ysgolion (fel mwy neu lai o leoedd yn y cyfrwng Cymraeg neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig) neu'r angen am fwy/llai o ysgolion. Gallai fod angen gweithdrefnau statudol i wneud y newidiadau hyn.

***Proses ar gyfer rhagamcanu niferoedd a lleoedd ôl-16***

Gallai lleoedd ôl-16 gael eu darparu gan ysgolion 11–18, colegau AB a/neu ddarpariaeth dertaidd. Mae hyn yn golygu mai cynllunio ar gyfer lleoedd ôl-16 yw'r agwedd fwyaf cymhleth o bosib ar gynllunio lleoedd disgyblion, yn enwedig o ystyried disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd dyblygu anorfod yn y ddarpariaeth yn cael ei ddileu. Mae hefyd yn cynnwys ystyried trefniadau cydweithio 14–19 yn yr ardal, er mwyn sicrhau lleoedd digonol ar draws sefydliadau ôl-16 yr ardal, ac ystod ddigonol o opsiynau astudio a llwybrau cynnydd academaidd a galwedigaethol.





O ystyried y cymhlethdodau hyn, mae'n rhaid i ALlau weithio'n agos gydag ysgolion â chweched dosbarth a darparwyr ôl-16 eraill (colegau tertaidd/AB a darparwyr yn y gweithlu) er mwyn:

- gweithio allan niferoedd myfyrwyr yr ALl sy'n aros ymlaen mewn lleoedd ôl-16 yn eu hysgolion, gan ystyried y rhagamcanion y maent wedi'u gwneud ar gyfer nifer y disgyblion blwyddyn 11 yn eu hysgolion uwchradd dros y 10 mlynedd nesaf
- rhagamcanu cyfran eu myfyrwyr ôl-16 eu hunain a rhai OLAs yn y chweched dosbarth yn eu hysgolion, gan ystyried unrhyw newidiadau/ffactorau a allai effeithio ar y rhain.

***Proses ar gyfer rhagamcanu a chynllunio lleoedd AAA***

Pan yn cynllunio lleoedd i blant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n bwysig cynnwys ac ymgynghori'n llawn ag ysgolion, rhieni, awdurdodau lleol cyfagos, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau iechyd, asiantaethau sector gwirfoddol a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill er mwyn sicrhau gwasanaethau priodol i blant ag anghenion addysgol arbennig. Mae cynllunio ar y cyd effeithiol yn sicrhau defnydd llawer gwell o'r adnoddau sydd ar gael, a thrwy gydweithio o'r fath, gall awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o adnoddau arbenigol, goresgyn problemau sy'n codi o allu cyfyngedig a darparu gwasanaethau integredig i ddisgyblion.

Mae llawer o ALlau eisoes yn gweithio tuag at effeithiolrwydd eu darpariaeth leol i blant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, er enghraifft, mae llawer yn:

- datblygu darpariaeth ag adnoddau mwy arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd
- cefnogi eu hysgolion arbennig, wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion mwy dwys yn y sbectrwm AAA ac wrth greu canolfannau rhagoriaeth i gefnogi a darparu ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig mwy dwys.

Bydd datblygu gallu lleol o'r fath yn arwain at ostyngiad yn yr angen i blant a phobl ifanc gael eu haddysgu ymhell o'u cartref, yn ogystal â chael goblygiadau ar gyfer maint ysgolion arbennig.

Bydd y broses o gynllunio lleoedd yn cynnwys rhagamcanu'r newidiadau mewn angen, fel cynnydd mewn genedigaethau byw ac o ganlyniad mwy o angen am leoedd anawsterau dysgu dwys (SLD) ac anawsterau dysgu difrifol a lluosog (PMLD), a hefyd y cynnydd yn nifer y plant y nodwyd eu bod ar y sbectrwm awtistig. Mae data a ddelir gan awdurdodau iechyd a darparwyr cyn-ysgol, yn ogystal â chynlluniau Portage yr ALlau ei hun, yn hollbwysig i gynllunio tymor canolig a thymor hir.

Cyn datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth AAA yr ALl, mae'n bwysig ystyried:

- a fydd angen ysgolion arbennig pob-oed neu ysgolion yn ôl oed (byddai angen amcangyfrif costau cludiant)
- rôl ysgolion arbennig, yn enwedig eu potensial i ddarparu/bod yn ganolbwynt gwasanaethau estynedig yn yr ardal
- dadansoddiad tueddiadau yn ôl math yr angen sylfaenol – anhwylder sbectrwm awtistig cymhleth (ASD), PMLD a SLD – dros dair blynedd o leiaf





i helpu i ragamcanu, gan edrych ar niferoedd ym mhob grŵp blwyddyn, a chymharu'r dadansoddiad hwn â lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion arbennig/darpariaeth ag adnoddau arbennig yn yr ardal

- cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer SLD/PMLD ar draws yr ardal o'i chymharu â'r galw, er mwyn rhoi barn a oes diffyg lleoedd mewn rhai ardaloedd ai peidio, neu ormodedd mewn eraill, gan ystyried y rhagamcanion cyffredinol o ran y boblogaeth yn cynyddu neu'n gostwng.
- Y boblogaeth a thueddiadau Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol (BESD) (yn cynnwys y rheiny nad ydynt wedi'u lleoli'n briodol) a datblygu continwwm o ddarpariaeth ar gyfer cefnogi ymddygiad ar draws lleoliadau, PRUs a thrwy ddatblygiadau amlasiantaeth
- os mai ychydig iawn o blant ag anghenion cymhleth iawn y mae angen arnynt ddarpariaeth o'r fath a geir mewn ysgol arbennig, a fyddai modd cwrdd ag anghenion y plant hyn drwy uned arbenigol, drwy'r ALI yn llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) gydag ALI arall neu drwy gontract gydag ysgol arbennig annibynnol.

Felly, mae'r broses sylfaenol ar gyfer rhagamcanu'r angen am leoedd AAA/PRU yn cynnwys:

- nodi nifer y myfyrwyr preswyl/OLA yn narpariaeth AAA bresennol yr ALI
- nodi nifer y lleoedd PRU sydd eu hangen
- nodi nifer disgyblion yr ALI gyda gwahanol gategorïau AAA yn mynychu unedau ysgolion prif ffrwd neu ddarpariaeth ag adnoddau arbennig mewn OLA a/neu'r sector annibynnol/nas cynhelir
- pennu effaith debygol unrhyw ostyngiad neu gynnydd a ragamcanir yn y boblogaeth oed ysgol o fewn yr ALI/ardal
- pennu effaith debygol newidiadau yn lefel a math yr AAA
- pennu'r effaith debygol ar leoedd sydd eu hangen yn narpariaeth AAA yr ALI o ganlyniad i newidiadau yn narpariaeth AAA yr ALI ac OLA.







# Atodiad 6

## Enghraifft amlinellol o ddogfen ymgynghori – i'w addasu i weddu i gynigion unigol

***Cyflwyniad – egluro'r ymarfer ymgynghori***

Cynhelir cyfarfod ar (dyddiad ymlaen llaw i roi rhybudd digonol) i drafod darpariaeth ysgol Blynyddoedd Cynnar/Cynradd/Uwchradd yn ardal [xxxx]. Gallai hyn gael effaith ar ysgol [yyyy].

Mae croeso i chi ofyn cwestiynau a rhoi eich barn i ni yn y cyfarfod hwn neu gyflwyno eich ymateb yn ysgrifenedig. Dylai llythyrau ymateb gael eu hanfon at [enw a chyfeiriad y swyddog sy'n gyfrifol am goladu ymatebion] erbyn [dyddiad ar gyfer ymatebion ysgrifenedig].

Caiff eich barnau eu coladu a'u hystyried cyn gwneud penderfyniad am y camau nesaf. Bydd eich barnau yn cael eu hystyried gan [er enghraifft, Pwyllgor Addysg, Cabinet] mewn cyfarfodydd i'w cynnal ar [dyddiadau tebygol] a gwneir penderfyniad ar a fydd cynigion yn cael eu cyhoeddi ar [dyddiad tebygol].

***Cefndir yn arwain at yr ymarfer ymgynghori***

Mae'r ddarpariaeth ysgolion ar gyfer yr ardal hon fel a ganlyn (disgrifiad byr, gan gyfeirio ar ysgolion yn y gymdogaeth, eu dalgylchoedd, y niferoedd ar y gofrestr, gallu, categorïau, ac ati).

Mae'r sefyllfa bresennol yn anfoddhaol am y rhesymau canlynol:

- (cyflwr yr adeiladau)
- (anhawster mynediad)
- (cyflwyno'r cwricwlwm)
- (lleoedd dros ben/annigonol).

Opsiynau a ystyriwyd i oresgyn anawsterau'r sefyllfa bresennol. (Disgrifiad byr) e.e. Cydweithio/ysgol aml-safle/estyniadau dros dro/adolygu dalgylchoedd

Diystyriwyd yr opsiynau canlynol oherwydd:

- (tystiolaeth o gostau)
- (tystiolaeth o alw gan rieni)
- (canfyddiadau ymchwil).

Dylai disgrifiad o'r datrysiad arfaethedig (er enghraifft, cau ysgol yyyy) neu opsiynau gynnwys manylion, lle y bo'n briodol:

- fanteision ac anfanteision o'u cymharu â'r trefniadau presennol
- dyddiad gweithredu
- costau/arbedion (disgrifiwch y costau cyfalaf a refeniw)





- trefniadau trosglwyddo yn cynnwys unrhyw newidiadau i adeiladau mewn ysgolion
- sut y bydd cynigion yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal
- materion cludiant
- materion staffio
- materion cwricwlaidd
- cynlluniau amlinellol os ar gael
- maint yr ysgol newydd
- dalgylchoedd/niferoedd derbyn
- ysgolion partner cynradd/uwchradd
- tystiolaeth o unrhyw alw nad yw'n cael ei ddiwallu (er enghraifft, arolygon rhieni, lefelau uchel o apeliadau ar gyfer lleoedd mewn ysgolion).

***Egluro'r cyfnod gwrthwynebu statudol***

Os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen gyda chynigion mae'n debygol y bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi [rhowch ddyddiad/mis os yn bosib]. Bydd hysbysiadau yn ymddangos yn y [papur newydd a gyhoeddir ar …] ac ar hysbysfyrddau [ger yr ysgol, rhowch y cyfeiriad a'r union leoliad os yn bosib].

Ar ôl i hysbysiadau gael eu cyhoeddi mae cyfnod o ddau fis i ymateb yn ysgrifenedig. Dyma'r cyfnod statudol ar gyfer gwrthwynebiadau. Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at [rhowch y cyfeiriad y dylai fod yn gyson â'r hysbysiad].

Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, penderfynir ar y cynnig gan [Pwyllgor/Cabinet] ddau fis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad.

Os oes yna wrthwynebiadau, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y cynigion. Mae gan yr AALl/Hyrwyddwyr fis o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i roi sylwadau i Weinidogion Cymru ar y gwrthwynebiadau.

Gellir disgwyl penderfyniad y Gweinidogion oddeutu tri mis ar ôl cyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru.





# Atodiad 7

## Hysbysiadau statudol

Mae Rheoliadau *(Cynigion Trefniadaeth Ysgolion)(Cymru) Addysg 1999* yn pennu'r wybodaeth ganlynol, y dylid ei chynnwys mewn hysbysiadau i gau ysgol:

- Enw'r personau neu gorff sy'n cyhoeddi'r cynigion.
- Dyddiad, neu yn achos cynnig fesul cam, ddyddiadau'r gweithredu. Dylai'r dyddiad fod yn ddyddiad penodol, ond bydd yn dibynnu ar pa mor bell ymlaen llaw mae'r cynigion wedi cael eu cyhoeddi – er enghraifft, ar gyfer cam olaf ad-drefnu mawr i'w gwblhau pum mlynedd yn ddiweddarach, gallai'r dyddiad gweithredu fod 'ar ddechrau tymor yr hydref 20XX'. Am gynigion nad ydynt yn rhy bell i'r dyfodol, lle y gwyddir dyddiad y tymor newydd, dylid cynnwys hyn mewn hysbysiadau.
- Dylid anfon datganiad yn egluro'r weithdrefn ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau statudol yn cynnwys y dyddiad y dylid anfon gwrthwynebiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru/ Llywodraethwyr.
- Cyfeiriad Llywodraeth Cynulliad Cymru/ Llywodraethwyr.
- Manylion yr ysgolion y gallai'r disgyblion sydd yn yr ysgol i'w chau eu mynychu, yn cynnwys unrhyw drefniadau dros dro.
- Y cynigion arfaethedig ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgolion eraill.
- Manylion unrhyw fesurau eraill y cynigir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion sydd ar gael mewn mannau eraill o ganlyniad i'r cau arfaethedig.

Dangosir hysbysiad model drafft ar gyfer cau ysgol isod.

***ENGHRAIFFT O HYSBYSIAD STATUDOL I GAU YSGOL GYMUNEDOL, SYLFAEN, GWIRFODDOL NEU FEITHRIN A GYNHELIR***

**[Nodwch enw a chyfeiriad y rheiny sy'n cyhoeddi'r cynigion]**

Rhoddir rhybudd yma yn unol ag adran [ **(1)** ] Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) Addysg 1999 (S.I. 1999/1671) bod [enw fel uchod], wedi ymgynghori â'r personau hynny oedd yn ymddangos yn briodol iddynt, yn cynnig cau [enw a chyfeiriad yr ysgol].

Cynigir gweithredu'r cynigion ar [nodwch y dyddiad]. **(2)**

[Nodwch fanylion yr ysgolion y gallai'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol i'w chau eu mynychu, yn cynnwys unrhyw drefniadau dros dro. **(3)**]

[Nodwch fanylion unrhyw fesurau eraill y cynigir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion o ganlyniad i'r cau arfaethedig. **(4)**]

[Nodwch fanylion y trefniant arfaethedig i gludo disgyblion i ysgolion eraill **(5)**]





O fewn cyfnod o [ddau fis **(6)**] ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [nodwch y dyddiad] gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau at [ **(7)** ].

[Bydd yr awdurdod yn anfon copïau o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (a heb eu tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u sylwadau arnynt, i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod o [fis **(8)**] ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.] **(9)**

Bydd yn rhaid i'r cynigion (oni bai y cânt eu tynnu yn ôl) gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru os:

a) o fewn dau fis ar ôl i gopi ohonynt gael ei anfon at Weinidogion Cymru y maent yn rhoi rhybudd bod angen cymeradwyaeth o'r fath arnynt; neu

b) gwnaed gwrthwynebiadau o fewn y cyfnod gwrthwynebu ac nid ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Lle nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath ar y cynigion, bydd [ nodwch enw'r rheiny sy'n cyhoeddi'r cynigion ] yn penderfynu p'un ai i'w gweithredu.

Llofnod ................................................................ Dyddiad ............

I'r [awdurdod addysg lleol] [corff llywodraethu]

**Nodyn esboniadol**
[Mae'n arfer da cynnwys Nodyn Esboniadol yn egluro'r cynigion mewn iaith syml a darparu mwy o wybodaeth a chefndir i'r cynigion.]

**Nodiadau**

1) Nodwch rif yr adran: adran 29(1) am gynigion AALl i gau ysgol gymunedol, sylfaen, gwirfoddol neu feithrin a gynhelir/adran 29(2) am gynigion corff llywodraethu i gau ysgol sylfaen neu wirfoddol.

2) Lle y cynllunnir gweithredu fesul cam, dylid rhoi'r dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam – gweler paragraff 2 o Atodlen 3 i Reoliadau 1999.

3) Gweler paragraff 17 yr Atodlen honno.

4) Gweler paragraff 18 yr Atodlen honno.

5) Gweler paragraff 19 yr Atodlen honno.

6) Y cyfnod yw un mis yn achos ysgol y mae adran 15 yn gymwys (achosion lle y gall AALl ymarfer pwerau ymyrryd) – gweler rheoliad 7 Rheoliadau 1999.

7) Gweler paragraff 3 Atodlen 3. Ar gyfer cynigion AALl nodwch enw a chyfeiriad yr AALl. Ar gyfer cynigion cyrff llywodraethu nodwch enw a chyfeiriad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8) Y cyfnod yw pythefnos yn yr achos arbennig a ddisgrifir yn Nodyn **(6)** – gweler rheoliad 7 Rheoliadau 1999.

9) Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i hysbysiadau a gyhoeddir gan AALlau yn unig.

***Diwedd yr Hysbysiad***





***Sut i gyhoeddi***

Yn unol â Rheoliadau (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) Addysg 1999, mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau:

- drwy eu gosod mewn lle amlwg yn yr ardal y cynigir y bydd yr ysgol yn ei gwasanaethu
- mewn un papur newydd o leiaf sydd ar gael yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt uchod; a
- thrwy eu gosod wrth neu ger prif fynedfa'r ysgol, neu, os oes mwy nag un fynedfa, pob un ohonynt.

Er tegwch, dylid ystyried mai'r dyddiad cyhoeddi yw'r un hwyraf yr ymddangosodd ac a osodwyd yr hysbysiad. Mae felly yn hwyluso eglurder i'r holl ofynion cyhoeddi gael eu cwrdd ar yr un dyddiad. Gallai cynigion nad ydynt yn cael eu cyhoeddi'n gywir gael eu gwrthod am y rheswm hwnnw yn unig, felly, mae'n hollbwysig dilyn y gofynion cyhoeddi.

Mae'n agored i hyrwyddwyr gylchu hysbysiad yn fwy eang er mwyn sicrhau bod pawb yr effeithir yn sylweddol arnynt yn cael cyfle i wneud sylwadau neu wrthwynebu. Mewn cyfarfodydd ymgynghori ac yn unrhyw ddogfennau ymgynghori, dylid hysbysu'r cyhoedd am enw'r cyhoeddiad y bydd hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi ynddo. Os bydd hysbysiadau yn ymddangos mewn papur newydd sydd ar gael mewn ardal gyfyng iawn, gallai hyn rwystro'r rheiny sy'n debygol o wrthwynebu, felly, er tegwch, dylai hyrwyddwyr ystyried hysbysu partïon â diddordeb y byddent yn annhebygol o weld hysbysiadau cyhoeddus bod y cyhoeddi wedi digwydd. Er tegwch, ni ddylid cyhoeddi hysbysiadau yn ystod gwyliau ysgol oni bai y cysylltir yn uniongyrchol â'r rhieni i'w hysbysu am y cyhoeddiad.

Dylid anfon copi o'r hysbysiad, fel y mae'n ymddangos yn y wasg, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar unwaith ar ôl ei gyhoeddi.



